# Cwestiynau Ysgrifenedig a atebwyd rhwng 27 Chwefror a 6 Mawrth 2003

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

3 Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros Ddatblygu Gwledig a Chymru Dramor

10 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg

10 Cwestiwn i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd

12 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

16 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd

20 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid

21 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

40 Cwestiynau i'r Pwyllgor Tŷ

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

### Y Gêm Rygbi Ryngwladol Rhwng Cymru a'r Eidal

**Glyn Davies:** Sawl tocyn awyren a sawl tocyn gêm a brynwyd gan Lywodraeth y Cynulliad ar gyfer y gêm rygbi ryngwladol rhwng Cymru a'r Eidal, beth oedd eu cost a phwy gafodd y tocynnau? (WAQ22905)

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Gwahoddwyd fi i fynd i'r gêm rygbi rhwng Cymru a'r Eidal fel gwestai i ffederasiwn rygbi'r Eidal. Ymgymerwyd â'r ymweliad ar y cyd â llysgenhadaeth Prydain yn Rhufain. Bu'n fodd imi gael cyfarfodydd gyda nifer o Weinidogion yng nghabinet Llywodraeth yr Eidal sydd â chyfrifoldebau rhanbarthol, ac i fynychu derbyniad a gynhaliwyd gan y llysgennad yn y llysgenhadaeth i westeion o fyd busnes a chwaraeon yn yr Eidal, ynghyd â chynrychiolwyr Undeb Rygbi Cymru. Nid oedd unrhyw gostau o ran tocynnau i'r gêm i mi a'm hysgrifennydd personol, ac nid oedd costau llety ychwaith gan fy mod yn aros yng nghartref y llysgennad yn Rhufain. Mae'n anodd bwrw cyfrif o gostau'r tocynnau hedfan gan imi deithio'n uniongyrchol o Rufain i Frwsel ar gyfer cyfres o gyfarfodydd ddydd Llun 17 Chwefror gyda'r comisiynydd materion rhanbarthol, Michael Barnier, a 17 o benaethiaid llywodraethau haen ranbarthol eraill yn yr aelod-wladwriaethau.

### Gweithgarwch Terfysgol Posibl yn Ymwneud ag Adeiladau'r Llywodraeth

**Nick Bourne:** A oes cynlluniau ar gyfer ymdrin â gweithgarwch terfysgol posibl yn ymwneud ag adeiladau'r Llywodraeth ledled Cymru? (WAQ22942)

**Y Prif Weinidog:** Gan fod hwn yn fater diogelwch, ni allaf ddarparu manylion penodol cynlluniau o'r fath. Mae is-adran polisi diogelwch swyddfa'r Cabinet yn darparu cyngor ar ddiogelwch amddiffynnol i holl adrannau ac asiantaethau'r Llywodraeth. Mae hyn yn cynnwys nodi a hyrwyddo'r arferion gorau a chyhoeddi canllawiau. Drwy ganllawiau o'r fath, mae'r Cynulliad wedi gallu datblygu a gwella ei gyfundrefn ddiogelwch ei hun a'i adolygu'n barhaus. Mae'r cynlluniau hyn yn briodol i'r risg sy'n gysylltiedig â phob adeilad.

### Targedau Posibl i Derfysgwyr yng Nghymru

**Nick Bourne:** A oes cynlluniau ar gyfer ymdrin â gweithgarwch terfysgol o ran targedau posibl i derfysgwyr yng Nghymru? (WAQ22943)

**Y Prif Weinidog:** Gan fod hwn yn fater diogelwch, ni allaf ddarparu manylion penodol cynlluniau o'r fath.

Y Swyddfa Gartref sy'n arwain ar ran Llywodraeth y DU wrth ymateb i weithredoedd terfysgol. Os yw pethau'n symud i'r cam o reoli canlyniadau digwyddiad terfysgol, mae'r prif gyfrifoldeb yn trosglwyddo i'r Ysgrifenyddiaeth Paratoadau Sifil.

Mae Llywodraeth y DU wrthi'n gweithio'n ddiwyd i gryfhau ei gallu i gynllunio a pharatoi ar gyfer sialensiau aflonyddol ar lefelau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol, ac i ddelio â hwy a dod drostynt. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn chwarae rhan fyw yn y broses hon ac mae'n gweithio'n agos gyda Llywodraeth y DU i ddatblygu ein gallu cenedlaethol i wrthsefyll sialensiau o'r fath.

### Amddiffyn rhag Gweithgarwch Terfysgol Posibl yng Nghymru

**Nick Bourne:** A yw'r Prif Weinidog yn cyd-drefnu cynlluniau i amddiffyn rhag gweithgarwch terfysgol posibl yng Nghymru â Chabinet San Steffan? (WAQ22944)

**Y Prif Weinidog:** Ynghyd ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru, yr wyf yn aelod o'r Pwyllgor Paratoadau Sifil, o dan gadeiryddiaeth yr Ysgrifennydd Cartref. Y pwyllgor hwn sydd yn cyd-drefnu'r gwaith o

baratoi cynlluniau i sicrhau'r cyflenwadau a'r gwasanaethau sy'n hanfodol i fywyd y gymuned mewn argyfwng; yn adolygu'r cynlluniau hyn yn rheolaidd; ac yn goruchwylio'r gwaith o'u gweithredu yn ddiymdroi ac yn effeithiol mewn argyfyngau penodol. Yn gefn i'r trefniadau hyn gwneir gwaith ar lefel swyddogion ac mae swyddogion y Cynulliad yn chwarae rhan lawn a gweithgar yn y gwaith hwnnw.

### Arian a Wariwyd ar Geir Limwsîn

**Nick Bourne:** Faint o arian a wariodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ar geir limwsîn yn 2002-03, a faint a wariwyd yn 1999? (WAQ22971)

**Y Prif Weinidog:** Ni chedwir costau ar wahân am logi ceir yn y categori limwsîn. Hyd yma, £71,500 oedd y gost o gynnal holl fflyd geir Gweinidogion Llywodraeth y Cynulliad yn 2002-03. Mae'r costau hyn yn cynnwys cynnal a chadw'r cerbydau, costau tanwydd, yswiriant, trwyddedau treth car ac yswiriant rhag i'r cerbydau dorri i lawr. Maent hefyd yn cynnwys cost ceir wedi'u llogi, a yrrir gan chauffeur, a cherbydau cario pobl pan nad yw cerbydau'r Cynulliad ar gael. (Nid ydynt yn cynnwys costau cysylltiol gyrwyr y Cynulliad.) Y costau cyfatebol, heb eu haddasu ar gyfer chwyddiant, ym mlwyddyn 1999-2000 oedd £60,700.

### Nifer o Geir Limwsîn

**Nick Bourne:** Faint o geir limwsîn sydd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru heddiw, o gymharu â 1999? (WAQ22972)

**Y Prif Weinidog:** Nid oes gan Lywodraeth y Cynulliad unrhyw geir yn y categori limwsîn.

## Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros Ddatblygu Gwledig a Chymru Dramor

### Marchnata Cynnyrch Organig

**Peter Black:** Pa gyfleoedd marchnata sydd i gynnyrch organig? (WAQ22742)

**Y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros Ddatblygu Gwledig a Chymru Dramor (Michael German):** Mae gwaith yn cael ei wneud yn barhaus i sefydlu cyfleoedd marchnata newydd i gynnyrch organig, a hynny gartref a thramor. Mae Cyfarwyddiaeth Fwyd Awdurdod Datblygu Cymru a'r bartneriaeth bwyd-amaeth yn gweithio'n ddiwyd yn ceisio sefydlu cyfleoedd gyda'r holl archfarchnadoedd yng Nghymru i hyrwyddo ac annog y cyflenwad o gynnyrch organig. Mae Cyfarwyddiaeth Fwyd y WDA yn cynnig ystod o wasanaethau cymorth i gwmnïau Cymreig o'r sector organig sy'n dymuno cymryd rhan yn y rhaglen o ddigwyddiadau masnach sy'n datblygu. Mae Canolfan Organig Cymru hefyd yn cynnig cyngor marchnata i gynhyrchwyr organig.

### Profion Hwyr ar gyfer y Diciâu mewn Gwartheg

**William Graham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar nifer o brofion y diciáu mewn gwartheg y mae'n hen bryd eu cynnal yng Nghymru? (WAQ22745) [R]

**Michael German:** Dengys y data diweddaraf sydd ar gael mai ychydig llai na 1,600 oedd cyfanswm y profion hwyr ar gyfer y diciâu mewn gwartheg yng Nghymru ddiwedd Rhagfyr 2002. Mae hyn yn ostyngiad arwyddocaol o bron i 70 y cant o'r 5,135 o brofion oedd heb eu cynnal a gofnodwyd ddiwedd Tachwedd 2001.

**Pysgotwyr Môn a Cwotâu Pysgota Ewropeaidd**

**Peter Rogers:** A wnewch ddatganiad ar yr hyn yr ydych wedi'i wneud i ofalu bod pysgotwyr Môn yn derbyn chwarae teg o safbwynt cwotâu pysgod? (WAQ22885)

**Peter Rogers:** A wnewch ddatganiad ar yr hyn yr ydych wedi'i wneud i geisio lleihau colledion pysgotwyr Môn yn sgil y cwotâu pysgota Ewropeaidd, a'u digolledu? (WAQ22886)

**Peter Rogers:** Pa gymorth sydd ar gael i helpu i ddigolledu pysgotwyr Môn am eu colledion yn sgil y cwotâu pysgota Ewropeaidd? (WAQ22887)

**Peter Rogers:** A wnewch ddatganiad ar effeithiau'r cwotâu pysgota Ewropeaidd ar ddiwydiant pysgota Cymru? (WAQ22888)

**Peter Rogers:** A wnewch ddatganiad ar effeithiau'r cwotâu pysgota Ewropeaidd ar ddiwydiant pysgota Môn? (WAQ22889)

**Peter Rogers:** Pa drafod a fu rhyngoch chi, y cyrff Ewropeaidd a'r Llywodraeth am effeithiau'r cwotâu pysgota ar ddiwydiant pysgota Cymru? (WAQ22890)

**Peter Rogers:** A wnewch ddatganiad ar gyflwr y diwydiant pysgota ym Môn? (WAQ22891)

**Peter Rogers:** Pa gymorth ariannol a busnes sydd ar gael i bysgotwyr Môn? (WAQ22892)

**Peter Rogers:** Pa gymorth ariannol a busnes mae'ch adran yn ei roi i bysgotwyr Môn? (WAQ22893)

**Peter Rogers:** Sut mae'ch sylwadau ar ran diwydiant pysgota Cymru wedi effeithio ar y berthynas rhwng Cymru, Sbaen a Phortiwgal, o ran y cwotâu pysgota Ewropeaidd? (WAQ22894)

**Peter Rogers:** A oes gwrthdaro rhwng eich portffolio am Gymru dramor yn yr Undeb Ewropeaidd, ac fel y Gweinidog sy'n gyfrifol am ddiwydiant pysgota Cymru, yng ngoleuni effeithiau'r cwotâu pysgota Ewropeaidd ar y diwydiant hwnnw? (WAQ22895)

**Peter Rogers:** A wnewch ddisgrifio'ch cyfrifoldebau fel Gweinidog am y diwydiant pysgota yng Nghymru? (WAQ22896)

**Michael German:** Mae pysgodfeydd yn fater sydd wedi'i ddatganoli ac, er mai Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig sy'n arwain yn y DU, mae gennyf fi a'r tri Gweinidog pysgodfeydd arall (Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon) gydgyfrifoldeb am bolisi pysgodfeydd y DU.

Mae 54 o gychod pysgota llai na 10m wedi'u lleoli ar Ynys Môn. Mae yno wyth o gychod dros 10m sy'n eiddo mewn enw i fusnesau ar Ynys Môn ac mae chwech ohonynt wedi'u lleoli ar yr ynys neu'n pysgota yn y pysgodfeydd dyfnforol ym Môr Iwerddon; mae'r ddau arall wedi'u lleoli ym môr y Gogledd. O ran rhywogaethau, cregyn gleision yw'r cynnyrch pwysicaf o'r pysgodfeydd môr, ac mae cwmnïau Ynys Môn yn glanio 2,300 tunnell fetrig yn fras y flwyddyn, wedi'u cymryd yn bennaf o Afon Menai, ac maent werth tua £2.5 miliwn. Glaniwyd 2,497 tunnell fetrig o bysgod yng Nghaergybi yn ystod 2002, o gasgliad amrywiol o gychod o Loegr, Cymru a'r Alban. Yn ogystal, glaniodd cychod o Wlad Belg 413 tunnell fetrig, gwerth £878,723 yn ystod yr un cyfnod. Mae'r rhan fwyaf o gychod pysgota, sydd wedi'u lleoli ar Ynys Môn, yn targedu pysgod cregyn, a chregyn bylchog, gwichiaid moch, cimychiaid a chrancod yn bennaf. Prin iawn yw'r cychod pysgod gwyn. O'r fflyd o gychod dros 10m, mae pedwar cwch yn pysgota gwichiaid moch. Mae tua phedair treillong pysgod gwyn, y rhan fwyaf ohonynt yn llai na 10m, a rhyw chwech arall efallai yn defnyddio treillrwyd pysgod gwyn ar rai adegau o'r flwyddyn. Ar gimychiaid y mae'r fflyd o dan 10m sy'n pysgota gyda'r glannau yn canolbwyntio'n bennaf.

Yn nhermau rheoli cwotâu, 'pysgotwyr Ynys Môn' yw'r pysgotwyr hynny sydd â'u porthladd gweinyddu ar Ynys Môn. Mae'r pysgotwyr dan sylw yn gweithredu mewn gwahanol segmentau o fflyd bysgota'r DU ac mae eu hanghenion yn bur wahanol, yn dibynnu ar y segment y maent yn gweithredu ynddo, pa rywogaethau y maent yn eu dal, ac ym mha ardaloedd y maent yn pysgota.

Caiff pysgodfeydd Ewropeaidd eu pysgota ar sail ardaloedd môr a rhywogaethau yn hytrach na ffiniau cenedlaethol. Bob blwyddyn, mae Comisiwn yr UE yn cyhoeddi'r cyfansymiau y caniateir eu dal, a seilir ar dystiolaeth wyddonol. Wedyn neilltuir cwota i bob aelod-wladwriaeth, ar sail y patrymau pysgota hanesyddol. Mae cyfundrefn reoli'r DU, sydd wedi esblygu dros nifer o flynyddoedd, mewn ymgynghoriad â'r pysgotwyr, yn rhannu cwota'r DU rhwng cychod y cyrff cynhyrchu—y cychod 'sector' a 'di-sector' dros 10m a chychod di-sector o 10m neu lai (mae'r grŵp olaf yn cynnwys cychod sy'n pysgota o ran pleser).

Cynhelir cyfarfod agored bob blwyddyn gyda chynrychiolwyr y diwydiant i gytuno ar y rheolau rheoli am y flwyddyn ddilynol a cheir cyfarfodydd misol i bennu'r cyfyngiadau ar gychod di-sector. Mae nifer o bysgotwyr Ynys Môn wedi manteisio ar y gwahoddiad i ddod i'r cyfarfodydd rheoli cwotâu blynyddol a misol.

Nid oedd croeso i'r toriadau yn y cwotâu a gyhoeddwyd ddiwedd y llynedd, ond ni allwn anghytuno â'r dystiolaeth wyddonol fod bygythiad difrifol y bydd llawer o stociau Ewropeaidd, gan gynnwys y rheini ym môr Iwerddon, yn cael eu pysgota at ddifodiant. Fodd bynnag, fflyd gyda'r glannau yw fflyd Cymru gan fwyaf, gan gynnwys fflyd Ynys Môn, yn pysgota pysgod cregyn, ac mae'n debygol mai bach iawn fydd effaith y newidiadau arfaethedig arni. Yr ydym yn parhau i drafod gyda Physgodfeydd eraill y DU sut mae lliniaru'r colledion posibl a wynebir gan rai cychod, a bydd hyn yn cynnwys ceisio cyfnewid pysgod gyda rhannau eraill o fflyd y DU neu aelod wladwriaethau eraill.

Yr ydym yn ymchwilio i'r defnydd o arian Amcan 1, o dan gronfa offeryn ariannol cyfarwyddyd pysgodfeydd yr UE, i gynorthwyo unrhyw bysgotwyr a allai fod am arallgyfeirio i fathau eraill o bysgota. Dyfarnwyd £1.4 miliwn mewn grantiau UE i gwmnïau ar Ynys Môn o dan y cynllun dros y pedair blynedd diwethaf, a rhoddwyd £209,000 o arian cyfatebol gan Lywodraeth y Cynulliad hefyd tuag at y dyfarniadau hyn. Mae cynllun FIFG yn dal ar agor i geisiadau newydd ac yr ydym wedi ymrwymo i ddarparu arian cyfatebol ar gyfer unrhyw geisiadau llwyddiannus yn y dyfodol.

Nid wyf yn ymwybodol o unrhyw wrthdaro rhwng fy mhortffolio dros Gymru dramor a'm swydd fel y Gweinidog sy'n gyfrifol am y diwydiant pysgota, ac nid wyf ychwaith yn credu y bydd polisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar bysgodfeydd yn effeithio ar fy mherthynas â Sbaen a Phortiwgal.

**Pobl a Gyflogir yn y Sector Amaeth**

**Glyn Davies:** Faint o bobl oedd yn cael eu cyflogi yn y sector amaeth yng Nghymru ar 1 Mai 1997 ac ar 6 Mai 1999, a beth yw'r cyfanswm diweddaraf sy'n gweithio ynddo? (WAQ22897)

**Michael German:** Gellir canfod nifer y gweithwyr ar ddaliadau amaethyddol yng Nghymru o'r cyfrifiad amaethyddol ym mis Mehefin bob blwyddyn. Mae'r cyfansymiau hyn yn cynnwys prif ffermwyr, gweithwyr rheolaidd a gweithwyr achlysurol neu weithwyr mewn criwiau. Cyfrif pennau a geir yn y canlyniadau, yn hytrach na ffigur sy'n cyfateb i swyddi amser llawn. Nid oes ffigurau ar wahân ar gael am fis Mai.

| Blwyddyn | Cyfanswm gweithwyr |
|---|---|
| Mehefin 1997 | 63,300 |
| Mehefin 1998 | 62,000 |
| Mehefin 1999 | 59,500 |
| Mehefin 2000 | 55,700 |
| Mehefin 2001 | 56,400 |
| Mehefin 2002 | 56,300 |

**Taliadau Cynlluniau Amaethyddol**

**Peter Rogers:** Mae taliad tir âr yn cael ei dal yn ôl ar rif daliad rhif 53/158/0014 oherwydd anghysonder gyda'r mesuriadau. Mesurwyd yr arwynebedd gan y Cynulliad Cenedlaethol ym Medi 2002. A all y Gweinidog gadarnhau a) beth yw'r anghysonder ynglŷn â rhif daliad 53/158/0014; b) os caiff yr anghysondeb ei brofi, faint a dynnir o'r taliad, a c) faint o amser y cymer y penderfyniad fel bod modd talu'r taliad tir âr i rif daliad 53/158/0014? (WAQ22926) [R]

**Peter Rogers:** Mae'r 'llinell gymorth' wedi cadarnhau bod taliad premiwm arbennig cig eidion i rif daliad rhif 53/158/0014 wedi'i brosesu, ond na chaiff ei dalu tan y bydd y taliad tir âr wedi'i dalu. Yn dilyn eich ateb i WAQ22581 felly, a fedrwch gadarnhau; a) pam nad oes modd talu'r premiwm arbennig cig eidion i rif daliad 53/158/0014; a b) drwy awdurdod pwy y cafodd y penderfyniad i wrthod ei dalu ei wneud? (WAQ22927) [R]

**Peter Rogers:** A wnaiff y Gweinidog esbonio pam nad oes modd talu taliadau premiwm arbennig cig eidion a buchod sugno ar sail caledi i rif daliad 53/002/9021 er i'r daliad hwn fod gyda'r cyntaf i dderbyn taliadau cynllun premiwm blynyddol defaid ar sail caledi? (WAQ22928) [R]

**Peter Rogers:** Pam bod taliadau cymorth ardaloedd llai ffafriol ar gyfer cynllun premiwm blynyddol defaid a Thir Mynydd i rif daliad 53/57/260 yn cael eu dal yn ôl? (WAQ22929)

**Peter Rogers:** A wnaiff y Gweinidog gadarnhau'r hyn y mae wedi'i wneud i gael hyd i'r £11,400 y mae'r Cynulliad yn haeru iddo ei dalu fel cymorth tir âr a phremiwm arbennig cig eidion i rif daliad 56/70/39, nad yw eto wedi'i dderbyn? (WAQ22952)

**Peter Rogers:** Mae gwerth £9,000 o daliadau'n ddyledus i rif daliad 55/56/0003 ers Mawrth 2002. A all y Gweinidog ddweud a gaiff llog ei ychwanegu at y swm sy'n ddyledus? (WAQ22954)

**Peter Rogers:** Mae £16,000 o gymorth organig yn ddyledus i rif daliad 53/33/99 ers 5 Rhagfyr 2002. A all y Gweinidog esbonio pam nad yw'r arian hwn wedi'i dalu eto, a pha gamau y mae'n eu cymryd i ofalu y caiff yr arian ei dalu? (WAQ22958)

**Peter Rogers:** Mae £9,000 o daliadau gymorth troi at ffermio organig yn ddyledus i rif daliad 55/56/0003 ers Mawrth 2002. All y Gweinidog gadarnhau pam nad yw'r arian hwn wedi'i dalu eto, a pha gamau y mae'n eu cymryd i ofalu y caiff yr arian ei dalu? (WAQ22959)

**Peter Rogers:** Mae bron i £2,000 o daliadau cynllun ardal amgylchedd arbennig yn ddyledus i rif daliad 53/140/85 ers haf diwethaf. A all y Gweinidog esbonio pam nad yw'r arian hwn wedi'i dalu, a pha gamau y mae'n eu cymryd i ofalu y caiff yr arian ei dalu? (WAQ22968)

**Peter Rogers:** Mae gwerth £24,000 o daliadau tir âr, premiwm arbennig cig eidion a dad-ddwysáu yn ddyledus i rif daliad 56/229/0950. A all y Gweinidog esbonio pam nad yw'r arian hwn wedi'i dalu, a pha gamau y mae'n eu cymryd i ofalu y caiff yr arian ei dalu? (WAQ22969)

**Peter Rogers:** Mae tua £4,000 yn ddyledus i rif daliad 53/116/0043 o dan gynllun ardal amgylchedd arbennig ers Hydref diwethaf. A all y Gweinidog esbonio pam nad yw'r arian hwn wedi'i dalu, a pha gamau y mae'n eu cymryd i ofalu y caiff yr arian ei dalu? (WAQ22970)

**Michael German:** Nid yw'n briodol trafod materion ariannol unigolyn yn gyhoeddus oherwydd y gellid dehongli pwy yw'r person dan sylw. Byddaf yn ysgrifennu atoch ynglŷn â'r mater maes o law.

### Cynllun Taliadau Cymorth (Llog)

**Peter Rogers:** A wnaiff y Gweinidog gadarnhau a gaiff llog ei ychwanegu yn awtomatig at bob cynllun taliadau cymorth nad oes amser talu penodol ar eu cyfer? (WAQ22953)

**Michael German:** Na chaiff. Mae'n bosibl y bydd taliadau hwyr o dan gynlluniau cymorth nad oes amser talu penodol ar eu cyfer yn denu iawndal os yw'r oedi i'w briodoli'n gyfangwbl i'r Cynulliad. Caiff pob achos ei ystyried ar ei haeddiant a bydd yn ddarostyngedig i drothwy isafswm o £50 o log wedi cronni.

### Taliadau Cynllun Ardal Amgylchedd Arbennig

**Peter Rogers:** Sawl taliad cynllun ardal amgylchedd arbennig oedd i fod i gael eu talu rhwng Chwefror 2002 ac Ionawr 2003; sawl un a dalwyd; a sawl un a dalwyd o fewn mis wedi'r dyddiad dyledus? (WAQ22955)

**Michael German:** Yr oedd 2,200 yn fras o daliadau cynllun ardal amgylchedd arbennig i fod i gael eu talu rhwng Chwefror 2002 ac Ionawr 2003 ac, o'r rhain, mae 1,400 wedi cael eu talu. Nid yw'r nifer a dalwyd o fewn mis wedi'r dyddiad dyledus ar gael yn hwylus a dim ond am gost afresymol y gellir ei ganfod.

### Gwerthu a Phrydlesu Buchod Sugno a Chwotâu Defaid

**Peter Rogers:** A all y Gweinidog ddweud faint o arian gwerthu a phrydlesu buchod sugno a chwotâu defaid sydd yn cael ei ddal yn ôl gan froceriaid fel ocsiynau da byw a broceriaid cwota, ac sy'n aros am ganiatâd y Cynulliad i'w dalu? (WAQ22956)

**Michael German:** Nid yw'r wybodaeth ariannol hon ar gael i'r Cynulliad.

### Arian Gwerthu a Phrydlesu Buchod Sugno a Chwotâu Defaid

**Peter Rogers:** A all y Gweinidog ddweud faint o arian gwerthu a phrydlesu buchod sugno a chwotâu defaid oedd yn cael ei ddal gan froceriaid fel ocsiynau da byw a broceriaid cwota ym Medi 2002, Hydref 2002, Ionawr 2003 a Chwefror 2003, a chaniatâd i dalu allan faint o'r arian hwn a gafwyd? (WAQ22957)

**Michael German:** Nid yw'r wybodaeth ariannol hon ar gael i'r Cynulliad. Gwnaed 1,847 o drafodion i gyd o dan y cynllun premiwm buchod sugno yng nghyfnod masnachu 2002, ac yr oedd 82.5 y cant o'r rhain wedi cael eu hawdurdodi erbyn 27 Chwefror 2003.

Bu oedi cyn cwblhau trafodion cwota y cynllun premiwm blynyddol defaid oherwydd y gofyniad deddfwriaethol a gyflwynwyd yn ddiweddar i drosglwyddo perchenogaeth cwotâu oddi wrth unigolion o fewn grwpiau cynhyrchwyr i'r busnes. Yr ydym yn disgwyl i'r trafodion hyn cael eu cwblhau erbyn dyddiad terfyn yr UE o 6 Ebrill 2003.

### Gosod y System Gyfrifiadurol Newydd

**Peter Rogers:** Pryd yn union y rhoddwyd y gorau i brosesu taliadau o'r swyddfa ranbarthol, er mwyn gosod y system gyfrifiadurol newydd? (WAQ22962)

**Michael German:** Ar 9 Hydref 2002. Aeth y system graidd amaethyddiaeth yn fyw ym mis Mai 2002.

### Taliadau o'r Swyddfa Ranbarthol

**Peter Rogers:** Os oes mwy na 3,500 o daliadau yn dod bob dydd o'r swyddfa ranbarthol, a yw'r rheswm pam fod oedi cyn eu talu yn gysylltiedig â'r ffordd y maent yn cael eu prosesu? (WAQ22963)

**Michael German:** Nac ydw. Nid yw’r oedi cyn rhyddhau taliadau eleni i’w briodoli i’r ffordd y maent yn cael eu prosesu ond i’r rhesymau a roddwyd yn yr ateb i WAQ22965.

**Gosod y System Gyfrifiadurol Newydd**

**Peter Rogers:** Pryd rhoddwyd y gorau i brosesu taliadau cymorth am fod y system gyfrifiadurol newydd yn cael ei gosod, a phryd y dechreuodd y cyfrifiaduron newydd weithio? (WAQ22964)

**Michael German:** Aeth y system graidd amaethyddiaeth yn fyw ym mis Mai 2002. Rhoddwyd y gorau i brosesu taliadau cymorth ar 9 Hydref 2002. Ailddechreuwyd gwneud taliadau, o dan y cynllun premiwm blynyddol defaid, ar 18 Tachwedd 2002.

**Staff yn y Swyddfa Ranbarthol**

**Peter Rogers:** O Ebrill ymlaen, cafodd staff y swyddfa ranbarthol eu symud o brosesu ffurflenni cais ar amser tyngedfennol i wneud dyletswyddau eraill. A ydych yn cytuno mai hyn yw’r prif reswm pam fod cymaint o’r taliadau yn dal heb eu gwneud, ac nid am i system gyfrifiadurol newydd gael ei gosod? (WAQ22965)

**Michael German:** Nac ydw.

**Annilysu Taliadau i Ffermwyr**

**Peter Rogers:** Cafodd taliadau i ffermwyr eu hannilysu ryw naw mis ar ôl i’r swyddfa ranbarthol dderbyn eu ceisiadau. A yw hyn yn gysylltiedig i’r ffaith bod system gyfrifiadurol newydd wedi’i gosod? (WAQ22966)

**Michael German:** Yn rhannol. Mae’r gwaith o osod y system gyfrifiadurol newydd wedi effeithio ar ddilysu rhai hawliadau a’r darpariaethau cosbi dilynol.

**Taliadau Cynllun Premiwm Blynyddol Defaid**

**Peter Rogers:** Haerwch i ryw 3,000 i 4,000 o daliadau cynllun premiwm blynyddol defaid gael eu gwneud bob dydd, ac y dylid felly fod wedi clirio’r holl daliadau erbyn hyn. A wnewch chi esbonio pam nad yw’r taliadau wedi’u talu? (WAQ22967)

**Michael German:** Nid oes taliadau wedi ôl-gronni. Mae yna, fel a geir ym mhob blwyddyn, ganran fach o achosion sydd â phroblemau penodol (er enghraifft, profiant, ysgaru ayb.). Mae’r UE yn llwyr gydnabod hyn ac o’r herwydd nid yw ond yn mynnu bod 96 y cant o daliadau yn cael eu gwneud erbyn dyddiad terfyn yr UE o 31 Mawrth. Mae 98 y cant o daliadau’r cynllun premiwm blynyddol defaid wedi cael eu gwneud erbyn hyn.

**Diwygiadau’r Polisi Amaethyddol Cyffredin**

**Peter Rogers:** O dan ddiwygiadau’r PAC, sut y bydd anghenion ffermwyr newydd, sy’n meddiannu fferm neu dir lle nad oes unrhyw daliadau etifeddol na chwotâu, yn cael eu diwallu? (WAQ23005)

**Michael German:** Mae erthygl 45 o destun deddfwriaethol drafft y comisiwn, a gyhoeddwyd ar 22 Ionawr, yn egluro fel y bydd yn rhaid i’r aelod-wladwriaethau sefydlu cronfeydd cenedlaethol; ac mae’n disgrifio sut y gallant ddefnyddio’r peirianwaith hwn i ganiatáu cwotâu cyfeiriol i ffermwyr newydd. Nid yw’r rheoliadau gweithredu, a fydd yn nodi’r trefniadau manwl ar gyfer dyrannu’r gronfa genedlaethol, yn debygol o fod ar gael tan ddiwedd y flwyddyn.

## Gwastraff Arlwyo sydd wedi'i Gompostio

**Glyn Davies:** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i ganiatáu gwastraff arlwyo sydd wedi'i gompostio, sy'n cynnwys cig o fwytai a cheginau, i gael ei ddefnyddio fel gwrtaith ar dir fferm? (WAQ23028)

**Michael German:** Mae rheoliad sgîl-gynhyrchion anifeiliaid yr UE, a fydd yn weithredol o 1 Mai 2003, yn caniatáu trin gwastraff arlwyo, sy'n cynnwys cig, mewn gweithfeydd compostio sydd wedi'u cymeradwyo. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wrthi ar hyn o bryd yn ystyried ymatebion i ymgynghoriad ynglŷn â chynigion i ddiwygio'r Gorchymyn Sgîl-gynhyrchion Anifeiliaid i ganiatáu trin gwastraff arlwyo yn y ffordd hon, yn amodol ar brosesau compostio penodol a rheolaeth gaeth dros y safonau compostio. Ni fyddai modd pori ar dir y lledaenwyd y compost arno am ddau fis ar ôl defnyddio'r compost.

## Taliadau Grant Organig

**Peter Rogers:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr oedi wrth dalu taliadau'r grant organig? (WAQ23039)

**Peter Rogers:** Mae rhai ffermwyr wedi bod yn aros ers mis Hydref am eu taliadau grant organig. A all y Gweinidog wneud datganiad ar y rhesymau dros yr oedi wrth wneud y taliadau hyn? (WAQ23041)

**Peter Rogers:** A all y Gweinidog ddweud beth oedd yn gyfrifol am yr oedi wrth dalu'r grant organig? (WAQ23043)

**Michael German:** Bu oedi hwy na'r disgwyl cyn talu taliadau sy'n ddyledus o dan y cynllun ffermio organig a'r cynllun cymorth organig. Mae prosesau talu newydd yn cael eu datblygu ac erbyn hyn yr wyf yn disgwyl i'r taliadau o dan y cynlluniau hyn ailgychwyn yn ddiweddarach y mis hwn.

## Taliadau Grant Organig

**Peter Rogers:** Ar ba ddyddiad y cyflwynwyd y system daliadau newydd ar gyfer taliadau grant organig? (WAQ23040)

**Michael German:** Yr wyf yn disgwyl i'r system dalu newydd ar gyfer grantiau organig gael ei rhoi ar waith yn ddiweddarach y mis hwn.

## Taliadau Grant Organig Hwyr

**Peter Rogers:** A all y Gweinidog ddweud pam na chafodd y taliadau grant organig hwyr eu talu ym mis Rhagfyr yn unol â'r addewid? (WAQ23042)

**Michael German:** Yr oeddem wedi gobeithio gwneud y taliadau hyn ym mis Rhagfyr ond mae blaenoriaethau eraill wedi effeithio ar roi'r system dalu newydd ar waith. Erbyn hyn yr wyf yn disgwyl i'r taliadau ailgychwyn yn ddiweddarach y mis hwn.

## Holiadur Manylion Cwsmeriaid Cymru

**Peter Rogers:** A all y Gweinidog ddweud pwy sy'n gyfrifol am ddosbarthu'r holiadur manylion cwsmeriaid Cymru? (WAQ23044)

**Michael German:** Yr Adran Amaethyddiaeth sy'n gyfrifol drwyddi draw am ffurflenni manylion cwsmeriaid Cymru. Cafodd y ffurflenni eu hargraffu a'u dosbarthu gan Mail Marketing International o Fryste.

### Gohebiaeth a Anfonir gan eich Adran

**Peter Rogers:** A yw'r Gweinidog yn cytuno y dylai gohebiaeth a anfonir gan eich adran fod â manylion cyswllt yr anfonydd wedi'u nodi arni? (WAQ23046)

**Michael German:** Ydwyf. Fodd bynnag, yr wyf yn derbyn nad yw hyn wedi digwydd bob amser ac yr ydym yn chwilio am ffyrdd o unioni'r sefyllfa hon.

### Casglwyr Cocos yr Effeithiwyd Arnynt gan Gau Gwelyau Cocos

**Janet Ryder:** A all y Gweinidog ddweud pryd mae'n disgwyl ateb gan y CE yn rhoi manylion am hynt cais a wnaed gan Lywodraeth Cynulliad Cymru am becynnau cymorth ariannol ar gyfer casglwyr cocos yr effeithiwyd arnynt gan y penderfyniad i gau gwelyau cocos? (WAQ23142)

**Michael German:** Anfonwyd cais am gymeradwyaeth cymorth gwladol, ar gyfer cynllun cymorth ariannol i gasglwyr cocos Moryd Byrri, at y comisiwn yn gynnar ym mis Tachwedd 2002. Ar 1 Ionawr 2003 cyflwynodd y comisiwn reolau ymgeisio newydd a olygai fod yn rhaid inni ailgyflwyno'r cais mewn diwyg newydd. Cafodd y cais newydd hwn ei gyflwyno ganol fis Ionawr ac mae'r comisiwn wedi ein hysbysu y gallwn ddisgwyl penderfyniad ffurfiol erbyn canol Ebrill.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg

### Cymorth Ariannol gan Undeb Rygbi Cymru

**Alun Cairns:** Pa geisiadau am gymorth ariannol y mae'r Gweinidog wedi eu cael oddi wrth Undeb Rygbi Cymru? (WAQ22713)

**Y Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg (Jenny Randerson):** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddais ichi ar 21 Ionawr 2003. Mae'r cais am gymorth ariannol a dderbyniais oddi wrth brif weithredwr y grŵp yn dal i gael ei ystyried.

### Trafodaethau gydag Undeb Rygbi Cymru

**Alun Cairns:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gydag Undeb Rygbi Cymru yn ddiweddar? (WAQ22714)

**Jenny Randerson:** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddais ichi ar 22 Ionawr 2003. Nid wyf wedi cael trafodaethau pellach gydag Undeb Rygbi Cymru ers y cyfarfod gyda David Moffett yn gynnar ym mis Ionawr.

### Atyniadau Diwylliannol yng Nghymru sy'n Eiddo i Berchnogion Preifat

**William Graham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch y nifer sy'n ymweld â'r atyniadau diwylliannol yng Nghymru sy'n eiddo i berchnogion preifat? (WAQ22737)

**Jenny Randerson:** Nid yw'r wybodaeth hon yn cael ei chadw'n ganolog.

### Pêl-droed yn Abertawe

**Peter Black:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut mae'n hyrwyddo pêl-droed yn Abertawe? (WAQ22738)

**Jenny Randerson:** Fis Tachwedd diwethaf, cyhoeddais y byddai Llywodraeth Cynulliad Cymru yn darparu dros £1.2 miliwn dros y tair blynedd nesaf i weithredu argymhellion y fforwm pêl-droed. Mae'r argymhellion hyn yn cael eu gyrru gan Ymddiriedolaeth Cymdeithas Bêl-droed Cymru, sydd wedi cyflwyno sawl cynllun newydd i ddatblygu a hyrwyddo pêl-droed yn ardal Abertawe. Mae'r rhain yn cynnwys cynghrair pêl-droed newydd i ysgolion cynradd, gyda thimau bechgyn a merched, a chynghrair Asiaidd newydd. Sefydlwyd hefyd dri thîm pêl-droed newydd i ferched a chynghrair dan do yn benodol i ferched dan naw oed. Yn ogystal, mae tua 25 o athrawon wedi mynychu cwrs hyfforddiant pêl-droed.

Mae Ymddiriedolaeth Cymdeithas Bêl-droed Cymru hefyd yn gwneud gwaith o dan y cynllun achredu clybiau, sy'n golygu gwella strwythur a threfniadaeth pêl-droed mewn ysgolion a chlybiau lleol. Mae naw ysgol yn Abertawe wedi cofrestru hyd yma o dan y cynllun.

### Grwpiau Cymraeg yn Sir Fynwy

**David Davies:** Beth mae'r Gweinidog yn ei wneud i annog pobl i sefydlu grwpiau newydd Cymraeg eu hiaith yn Sir Fynwy? (WAQ22739)

**Jenny Randerson:** Gyda'r cyllid ychwanegol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yng Ngorffennaf 2002, mae'r Mudiad Ysgolion Meithrin wedi penodi swyddog rhan-amser i sefydlu a goruchwylio datblygiad grwpiau Ti a Fi a chylchoedd meithrin yn ardal Brynbuga. Bydd y gwaith datblygu hwn yn parhau dros y flwyddyn ariannol nesaf.

Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg hefyd mewn trafodaethau gyda'r Eisteddfod Genedlaethol a phartneriaid allweddol eraill megis yr Urdd, y Mudiad Ysgolion Meithrin a Chlybiau Ffermwyr Ifanc Cymru ar hyn o bryd er mwyn cydweithredu i drefnu rhaglen o ddigwyddiadau cymdeithasol yn y cyfnod yn arwain at yr Eisteddfod yng Nghasnewydd yn 2004 ac ar ôl iddi orffen. Bydd hyn yn denu siaradwyr Cymraeg, dysgwyr ac eraill sydd â diddordeb yn yr iaith a'r diwylliant Cymreig o Sir Fynwy gyfagos. Bydd yn ffordd ddyfeisgar o ddatblygu'r Gymraeg yn y gymuned ar yr un patrwm â chynlluniau gweithredu'r bwrdd ynglŷn â'r iaith.

Mae'r cynnydd sylweddol yn nifer y siaradwyr Cymraeg a ddatgelwyd yng nghyfrifiad 2001 yn tanlinellu pwysigrwydd polisïau sy'n cael effaith ar draws Cymru gyfan, gan gynnwys ardaloedd megis Sir Fynwy.

### Cerflun o Iolo Morganwg

**David Melding:** A wnaiff y Gweinidog ymchwilio i weld pa mor ddichonadwy fyddai comisiynu cerflun o Iolo Morganwg? (WAQ22749)

**Jenny Randerson:** Nid wyf wedi derbyn unrhyw sylwadau o blaid comisiynu cofeb o'r fath i Iolo Morganwg, ac nid oes gennyf unrhyw gynlluniau i wneud hynny ar hyn o bryd.

## Cwestiwn i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd

### Buddsoddiad Ychwanegol o'r Sector Cyhoeddus i Ben-y-bont ar Ogwr

**Peter Black:** Pa fuddsoddiad ychwanegol y mae Awdurdod Datblygu Cymru wedi'i ddenu o'r sector cyhoeddus i ardal Pen-y-bont ar Ogwr ers 1999? (WAQ23163)

**Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd (Andrew Davies):** Ers 1 Ebrill 1999, mae Awdurdod Datblygu Cymru wedi denu cyfanswm o £60.532 miliwn o fuddsoddiad sector preifat i ardal Pen-y-bont ar Ogwr. Mae'r cyfanswm hwn yn cynnwys cymorth i 17 prosiect gan gwmnïau mawr megis Sony a Lloyds TSB. Y prosiect mwyaf arwyddocaol yw'r buddsoddiad gwerth £19 miliwn yng nghwmni ceir Ford.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

### Athrawon Ychwanegol a Gyflogwyd yng Ngorllewin De Cymru

**Peter Black:** Sawl athro ychwanegol a gyflogwyd yng Ngorllewin De Cymru o ganlyniad i bolisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru? (WAQ22622) [R]

**Y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes (Jane Davidson):** Dengys gwybodaeth o'r cyfrifiad ysgolion blynyddol fod nifer yr athrawon mewn ysgolion a gynhelir yng Ngorllewin De Cymru wedi cynyddu 171, o 4,518 ym mis Ionawr 1999 i 4,689 ym mis Ionawr 2002 (y dyddiad diweddaraf y mae data ar gael ar ei gyfer).

### Darparwyr Addysg sydd wedi eu Lleoli yng Nghymru

**Helen Mary Jones:** Sawl un o'r darparwyr addysg a gyllidir gan Gyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant sydd wedi eu lleoli yng Nghymru? (WAQ22705)

**Jane Davidson:** Mae Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant yn cyllido rhyw 340 o ddarparwyr addysg sydd wedi eu lleoli yng Nghymru.

### Sesiynau Hyfforddi/Cynadleddau CCAH

**David Davies:** Pa weithgareddau sy'n cael eu cynnal yn sesiynau hyfforddi/cynadleddau'r consortia cymunedol ar gyfer addysg a hyfforddiant? (WAQ22725)

**Jane Davidson:** Ceir amrywiaeth o weithgareddau gwahanol yng nghynadleddau/sesiynau hyfforddi'r CCAH. Ymysg yr enghreifftiau diweddar mae:

- fforymau agored i adolygu gweithgarwch a nodi blaenoriaethau;
- digwyddiadau ymgynghori i drafod a datblygu argymhellion blynyddol y CCAH; a
- chynhadledd a neilltuwyd yn benodol i sgiliau hanfodol.

Yn fwy cyffredinol, trefnir cynadleddau i helpu i lywio a datblygu'r ddarpariaeth addysg yn lleol, i rannu'r arferion gorau ac i ddatblygu rhwydweithiau dysgu effeithiol.

### Y Gronfa Her Dysgu

**Jocelyn Davies:** A yw Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi asesu unrhyw geisiadau am arian drwy'r gronfa her dysgu? (WAQ22746)

**Jane Davidson:** Caiff cynigion prosiect uwchlaw'r terfyn a ddirprwywyd i'r Cyngor Cenedlaethol—ELWa eu cyfeirio i Lywodraeth y Cynulliad i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â pholisïau'r Cynulliad. Mater i'r cyngor ei hun serch hynny yw'r ystyriaethau gweithredol sy'n gysylltiedig â phob cynnig. Hyd yma, cafodd 10 cynnig ei gyfeirio, cymeradwywyd 7, tynnwyd un yn ôl ac mae dau arall yn cael eu hadolygu.

### Cyllideb Hyfforddi ELWa

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog restru'r holl arian a drosglwyddwyd o gyllideb hyfforddi Dysgu ac Addysgu Cymru na chafodd ei ddefnyddio at bwrpas hyfforddi? (WAQ22898)

**Jane Davidson:** Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cymeradwyo dyraniadau cyllideb cychwynnol y cynghorau a nodir yn y cynlluniau gweithredol, a gall nifer o'r cyllidebau yn y cynlluniau hyn gynnwys hyfforddiant. Fodd bynnag, nid yw Llywodraeth y Cynulliad yn pennu cyllidebau penodol i ddau gyngor

ELWa mewn perthynas â hyfforddiant. Gan mai materion gweithredol i'r cynghorau eu hunain yw gosod eu cyllidebau mewnol, byddaf yn gofyn i'r prif weithredwr Steve Martin roi ateb uniongyrchol i chi ar y mater hwn. Caiff copi o'r adroddiad ei roi yn y Llyfrgell wedyn.

**ELWa**

**Alun Cairns:** Pa ganiatâd y mae ELWa wedi ceisio ei gael i drosglwyddo arian o un gyllideb fewnol i'r llall? (WAQ22899)

**Jane Davidson:** Mae gan Gynghorau ELWa awdurdod i drosglwyddo arian rhwng gwahanol gyllidebau mewnol hyd at lefelau penodedig. Mae'r lefelau hyn wedi eu nodi yn y memoranda ariannol, sy'n bodoli rhwng Llywodraeth y Cynulliad a'r naill gyngor a'r llall. Ym mlwyddyn ariannol 2002-03 hyd yma, mae Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant wedi gofyn i'r Cynulliad am gymeradwyaeth i drosglwyddo arian o'i gyllidebau ar gyfer rhaglenni sydd wedi'u cynllunio, sy'n cwmpasu datblygu dysgu a chyfalaf, i'r rheini sy'n ymdrin â chynyddu cyfranogiad ar draws y sector ôl-16, cynlluniau dysgu yn y gwaith a gweithredu mewn perthynas â diswyddiadau, dysgwyr ym maes addysg bellach ac ysgolion, sgiliau busnes a chostau cynnal. Nid yw Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru wedi gwneud unrhyw geisiadau i drosglwyddo arian rhwng cyllidebau yn ystod 2002-03.

**Rhifyn 2000 'Approved Document B to the Building Regulations'**

**Ann Jones:** Yn dilyn ei hateb i WAQ22121, a yw'n gwybod nad yw rhifyn 2000 o ddogfen B wedi'i chymeradwyo i'r rheoliadau adeiladu yn gofyn i ddylunwyr ysgol osod systemau taenellu dwr awtomatig mewn ysgolion newydd neu ysgolion sy'n cael eu hadnewyddu? (WAQ22973)

**Jane Davidson:** Nid yw'r dogfennau sydd wedi'u cymeradwyo mewn perthynas â'r rheoliadau adeiladu yn gosod unrhyw ofynion penodol ar y rhai sy'n dylunio unrhyw adeiladau. Mae'r dogfennau sydd wedi'u cymeradwyo mewn perthynas â'r rheoliadau adeiladau yn rhoi canllawiau cyffredinol yn ogystal ag ymarferol ynglŷn â rhai ffyrdd o gyflawni gofynion y rheoliadau adeiladau. Nid yw'r rheoliadau adeiladau eu hunain, ychwaith, yn rhagnodol. Gall dylunwyr ddewis pa un i ddefnyddio'r holl ddogfennau perthnasol sydd wedi'u cymeradwyo neu rai ohonynt neu rannau ohonynt. Y rhwymedigaeth gyfreithiol yw bodloni gofynion y rheoliadau adeiladu. Gall dylunwyr ddewis dyfeisio eu hateb eu hunain er mwyn bodloni gofyniad neu ddilyn canllawiau awdurdodau eraill. Yn dilyn gwaith Llywodraeth y Cynulliad ar ddiogelwch rhag tân yn y gymuned ac yn fwy diweddar ar losgi bwriadol, (fel rhan o gylch gwaith gweithgor Llywodraeth y Cynulliad ar ddiogelwch rhag tân yn y gymuned), mae Llywodraeth y Cynulliad yn ymchwilio i'r potensial i ariannu cynllun peilot i osod systemau taenellu mewn ysgol yn ardal pob un o'r tri gwasanaeth tân yng Nghymru. Nid yw'r gwaith ond megis dechrau eto.

**Systemau Taenellu Dŵr Awtomatig mewn Ysgolion Newydd neu Ysgolion sy'n cael eu Hadnewyddu**

**Ann Jones:** Yn dilyn ei hateb i WAQ22121, ac o ystyried nifer yr adeiladau ysgol a gollir mewn tanau, a yw Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ystyried cysylltu â Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog i geisio diwygio rhifyn 2000 o'r ddogfen B wedi'i chymeradwyo i'r rheoliadau adeiladu a gofyn i ddylunwyr ysgol osod systemau taenellu dwr awtomatig mewn ysgolion newydd neu ysgolion sy'n cael eu hadnewyddu? (WAQ22974)

**Jane Davidson:** Fel a ddywedais yn fy ateb i'r cwestiwn blaenorol, nid yw'r dogfennau sydd wedi'u cymeradwyo yn gosod gofynion penodol ar y rhai sy'n dylunio adeiladau. Mae'r dogfennau sydd wedi'u cymeradwyo yn rhoi canllawiau cyffredinol ynglŷn â rhai ffyrdd o gyflawni gofynion y rheoliadau adeiladau. Mae gofynion y rheoliadau adeiladau yn canolbwyntio'n bennaf ar sicrhau iechyd, diogelwch, lles a hwylustod pobl o fewn ac yng nghyffiniau adeiladau. Nid yw'r rheoliadau adeiladu yn ymdrin ag atal colledion ar ffurf eiddo materol. Y safonau isaf sy'n ofynnol yw'r rheoliadau adeiladu, a gellir rhagori arnynt. Os yw perchnogion adeiladau yn dymuno lleihau'r risg o golledion materol a achosir gan dân mae rhyddid iddynt gymryd mesurau priodol, a allai gynnwys gosod taenellwyr. Ni welaf unrhyw

reswm felly i gysylltu â Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog i ofyn am gyflwyno gofynion mandadol yn ymwneud â gosod taenellwyr mewn ysgolion. Yn dilyn gwaith Llywodraeth y Cynulliad ar ddiogelwch rhag tân yn y gymuned ac, yn fwy diweddar, ar losgi bwriadol (fel rhan o gylch gwaith gweithgor Llywodraeth y Cynulliad ar ddiogelwch rhag tân yn y gymuned), mae Llywodraeth y Cynulliad yn ymchwilio i'r potensial i ariannu cynllun peilot i osod systemau taenellu mewn ysgol yn ardal pob un o'r tri gwasanaeth tân yng Nghymru. Nid yw'r gwaith ond megis dechrau eto.

### Canllawiau ar Ddiogelwch Tân

**Ann Jones:** Yn dilyn ei hateb i WAQ22121, a yw'n gwybod bod yr Adran Addysg a Sgiliau yn bwriadu adolygu ac ail-gyflwyno ei chanllawiau ar ddiogelwch tân mewn adeiladau ysgol? (WAQ22975)

**Ann Jones:** Yn dilyn ei hateb i WAQ22121, a fydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cysylltu â'r Adran Addysg a Sgiliau er mwyn sicrhau bod unrhyw ganllawiau newydd ar ddiogelwch tân y bydd yn eu cyhoeddi i awdurdodau lleol ac eraill, yn sôn am yr angen i osod systemau taenellu dwr awtomatig mewn ysgolion newydd ac ysgolion sy'n cael eu hadnewyddu? (WAQ22976)

**Jane Davidson:** Mae'r canllawiau o eiddo'r Adran Addysg a Sgiliau yr ydych yn cyfeirio atynt: 'Managing School Facilities Guide 6—Fire Safety' yn cynnwys neges gadarnhaol a chefnogol ar effeithiau llesol gosod systemau taenellu dŵr awtomatig mewn adeiladau ysgol. Fe'u cyhoeddwyd yn 2000, cyn i'r eithriad a oedd yn rhyddhau ysgolion rhag gofynion y rheoliadau adeiladu gael ei ddileu ac, o'r herwydd, mae'n bryd i'r ddogfen gael ei hadolygu.

### Cost Addysgu Plant

**Peter Rogers:** Beth yw'r gost bob blwyddyn o addysgu plant yng ngogledd Cymru? (WAQ23013)

**Peter Rogers:** Beth yw'r gost bob blwyddyn o addysgu plant yn Ynys Môn? (WAQ23014)

**Jane Davidson:** Cyllidebir gwariant o £3,396 ar gyfartaledd fesul disgybl mewn ysgolion a gynhelir gan Gyngor Sir Ynys Môn yn 2002-03. Y cyfartaledd i holl awdurdodau gogledd Cymru yw £3,111. Nid yw'r naill ffigur na'r llall yn cynnwys grantiau penodol y Llywodraeth ac nid yw unedau cyfeirio disgyblion wedi'u cynnwys ynddynt.

### Gwaharddiadau o'r Ysgol yng Ngogledd Cymru

**Peter Rogers:** Faint o blant sydd wedi'u gwahardd o'r ysgol yng ngogledd Cymru yn ystod y deuddeg mis a aeth heibio a faint o blant a waharddwyd yn 2002? (WAQ23015)

**Jane Davidson:** Mae'r data diweddaraf sydd wedi'u cyhoeddi am waharddiadau o'r ysgol yn cyfeirio at flwyddyn academaidd 2000-01. Fe'u cyhoeddwyd yn natganiad data ystadegol 11/2002. Mae'n dangos bod 93 o blant wedi cael eu gwahardd yn barhaol o'r holl ysgolion a gynhelir o fewn Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam ynghyd â chyfanswm o 1485 o waharddiadau cyfnod penodedig a gofnodwyd.

Dylai'r ystadegau am 2001-02 gael eu cyhoeddi o fewn y chwe wythnos nesaf.

### Gwaharddiadau o'r Ysgol yn Ynys Môn

**Peter Rogers:** Faint o blant sydd wedi'u gwahardd o'r ysgol yn Ynys Môn yn ystod y deuddeg mis a aeth heibio a faint o blant a waharddwyd yn 2002? (WAQ23016)

**Jane Davidson:** Mae'r data diweddaraf sydd wedi'u cyhoeddi am waharddiadau o'r ysgol yn cyfeirio at flwyddyn academaidd 2000-01. Fe'u cyhoeddwyd yn natganiad data ystadegol 11/2002. Mae'n dangos

bod 15 o blant wedi cael eu gwahardd yn barhaol o'r holl ysgolion a gynhelir ar Ynys Môn ynghyd â chyfanswm o 265 o waharddiadau cyfnod penodedig a gofnodwyd.

Dylai'r ystadegau am 2001-02 gael eu cyhoeddi o fewn y chwe wythnos nesaf.

**Cost Addysg yn ei Gartref i Blentyn sydd wedi'i Wahardd o'r Ysgol**

**Peter Rogers:** Beth yw'r gost bob wythnos o dalu am addysg yn ei gartref i blentyn sydd wedi'i wahardd o'r ysgol? (WAQ23017)

**Peter Rogers:** Beth yw'r gost bob blwyddyn o dalu am addysg yn ei gartref i blentyn sydd wedi'i wahardd o'r ysgol? (WAQ23018)

**Jane Davidson:** Byddai costau o'r fath yn amrywio o awdurdod i awdurdod yn unol â'r trefniadau gwasanaeth yn lleol ac nid yw'r wybodaeth yn cael ei chadw yn ganolog.

**Swyddog Triwantiaeth**

**Peter Rogers:** Beth yw'r gost bob blwyddyn o gyflogi swyddog triwantiaeth? (WAQ23019)

**Jane Davidson:** Nid yw'r term swyddog triwantiaeth yn radd gydnabyddedig o fewn awdurdodau lleol. Bydd y radd yn amrywio o awdurdod i awdurdod ac nid yw'r wybodaeth yn cael ei chadw yn ganolog.

**Prosiect y Ffatri Bop**

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch cyllid ELWa ar gyfer prosiect y Ffatri Bop? (WAQ23048)

**Jane Davidson:** Darperais ddatganiad ysgrifenedig i Aelodau'r Cynulliad ar y Cyngor Cenedlaethol—ELWa a phrosiect y Ffatri Bop yr wythnos ddiwethaf. Fel a nodais yn y datganiad hwnnw, byddaf yn gwneud datganiad pellach i'r Aelodau ar y prosiect cyn gynted ag y byddaf mewn sefyllfa i wneud hynny.

**ELWa a Phrosiect y Ffatri Bop**

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion y sgyrsiau rhyngddi a phrif weithredwr ELWa ynghylch prosiect y Ffatri Bop? (WAQ23049)

**Nick Bourne:** Pa drafodaethau sydd wedi bod rhwng y Gweinidog a Bwrdd ELWa parthed prosiect y Ffatri Bop? (WAQ23052)

**Jane Davidson:** Nid wyf wedi cael unrhyw drafodaethau gyda'r prif weithredwr ynglŷn â phrosiect y Ffatri Bop. Yr wyf wedi cael trafodaeth gyda'r cadeirydd ynglŷn ag amserlen yr ymchwiliad mewnol ac ymchwiliad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol.

**Gohebiaeth gydag ELWa ynghylch Prosiect y Ffatri Bop**

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi unrhyw ohebiaeth rhyngddi ac ELWa ynghylch prosiect y Ffatri Bop? (WAQ23051)

**Jane Davidson:** Ni fu unrhyw ohebiaeth rhwng y Cyngor Cenedlaethol—ELWa a mi ynglŷn â phrosiect y Ffatri Bop. Byddwn yn disgwyl i unrhyw ohebiaeth ynglŷn â'r prosiect gael ei ryddhau i'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol fel rhan o'i hymchwiliad cyfredol.

**Prosiect y Ffatri Bop**

**Nick Bourne:** Pryd y sylweddolodd y Gweinidog fod ELWa yn mynd i roi £4 miliwn i brosiect y Ffatri Bop? (WAQ23053)

**Nick Bourne:** A oedd y Gweinidog yn ymwybodol bod ELWa wedi rhoi £4 miliwn ar y cychwyn cyntaf i brosiect y Ffatri Bop? (WAQ23054)

**Jane Davidson:** Fel a nodwyd yn y datganiad ysgrifenedig a wneuthum i aelodau'r Cynulliad yr wythnos ddiwethaf, rhoddais gymeradwyaeth i gynigion y Cyngor Cenedlaethol—ELWa mewn perthynas â phrosiect y Ffatri Bop ym mis Ionawr 2002. Yr oedd y cynigion hyn yn dangos y cyfraniad ariannol mwyaf y byddai'r cyngor yn ei wneud tuag at y prosiect. Wrth roi cymeradwyaeth, nodais yn glir fy mod yn gweithredu ar y wybodaeth a ddarparwyd gan y cyngor, gan gymryd ei farn weithredol ynglŷn â manteision y buddsoddiad arfaethedig i ystyriaeth. Mater i'r cyngor ei reoli yn unol â rheolau arferol y sector cyhoeddus ynglŷn â thaliadau i gontractwyr oedd natur ac amseriad y taliadau wedi hynny. Ni ddeuthum yn ymwybodol fod taliad wedi ei wneud o bosibl mewn perthynas â'r prosiect hwn cyn fod angen hynny hyd nes i'r posibilrwydd gael ei ddwyn i'm sylw fis diwethaf.

### Profion Cyfnod Allweddol 2

**David Davies:** Pa ganran o ddisgyblion Cymru sydd wedi pasio profion cyfnod allweddol 2 mewn Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth ar gyfer pob blwyddyn ers 1999? (WAQ23149)

**Jane Davidson:** Dangosir gwybodaeth am gyflawniadau disgyblion 11 oed ym mhrofion cyfnod allweddol 2 y cwricwlwm cenedlaethol yn y tabl isod. Yr wyf yn falch o ddweud bod y canlyniadau hyn yn golygu inni wireddu ein targed o 70-80 y cant yn cyrraedd lefel 4 o leiaf ym mhob un o'r pynciau craidd yn 2002.

**Canran y disgyblion a gyrhaeddodd lefel 4(a) neu uwch ym mhrofion cyfnod allweddol 2:**

| | Saesneg | Cymraeg | Mathemateg | Gwyddoniaeth |
|---|---|---|---|---|
| 1999 | 68 | 65 | 67 | 77 |
| 2000 | 74 | 68 | 69 | 81 |
| 2001 | 77 | 71 | 74 | 82 |
| 2002 | 79 | 75 | 73 | 86 |

(a) Lefel 4 yw'r lefel gyflawni a ddisgwylir yng nghyfnod allweddol 2.

Mae gwybodaeth bellach ar gael yn natganiad ystadegol cyntaf 55/2002, 'National Curriculum Assessments of 7,11 and 14-year-olds, Local Education Authorities in Wales, 2002', y mae copi ohono ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau.

### Cyfanswm Nifer y Disgyblion yn Ysgolion Cymru a Oedd yn Absennol

**David Davies:** A wnaiff y Gweinidog roi (1) cyfanswm nifer y disgyblion yn ysgolion Cymru a oedd yn absennol am hanner diwrnod a (2) cyfanswm nifer y disgyblion yn ysgolion Cymru a oedd yn absennol am hanner diwrnod heb ganiatâd, gan roi'r ffigurau ar gyfer pob blwyddyn ers 1999? (WAQ23150)

**Jane Davidson:** Fe'ch cyfeiriaf at ddatganiad data ystadegol 54/2002, 'Absenteeism from Secondary Schools in Wales', sy'n cynnwys gwybodaeth am absenoldebau yng Nghymru er 1998-99.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd

### Cefnffordd yr A487 rhwng Taliesin a Machynlleth

**Cynog Dafis:** A wnaiff y Gweinidog roi adroddiad ar gynnydd Cefnffordd yr A487 rhwng Taliesin a Machynlleth? (WAQ22580)

*Ateb terfynol yn dilyn ateb dros dro a roddwyd ar 20 Chwefror 2003.*

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd (Sue Essex):** Mae'r gwelliant ar yr A487 yng Nglandyfi (rhwng Taliesin a Machynlleth) wedi'i gynnwys ym mlaenraglen y cefnffyrdd o dan y pennawd cynlluniau atgyweirio ac uwchraddio.

Cyn y gellir dechrau ar y gwaith bydd yn rhaid cwblhau'r gweithdrefnau perthnasol yn llwyddiannus a sicrhau bod cyllid ar gael, ond y gobaith yw gallu dechrau yn 2005.

Mae ymchwiliadau yn mynd rhagddynt yn Nhaliesin i'r angen i ymestyn y cyfyngiad cyflymder 30 mya sy'n bodoli ar hyn o bryd a darparu hynny (neu ddarparu clustogfa 40 mya) a mesurau cysylltiol i dawelu'r traffig. Mae'r dyddiad cychwyn yn amodol ar gwblhau'r ymchwiliadau hyn.

Mae ymchwiliadau yn parhau yn Ffwrnais ynglŷn â darparu troedffyrdd a phompren. Yn y cam rhagarweiniol y mae'r gwaith dylunio, a bydd angen tir cyn y gellir dechrau gweithio yn yr ardal amgylcheddol sensitif hon. Oherwydd hynny, ni ellir roi dyddiad cychwyn i'r gwaith hwn ar hyn o bryd.

### Rhyddfraint Rheilffyrdd i Gymru

**Peter Black:** Pa drafodaethau y cafodd y Gweinidog gyda'r Awdurdod Rheilffyrdd Strategol mewn perthynas â datblygu rhyddfraint rheilffyrdd i Gymru gyfan? (WAQ22906)

**Sue Essex:** Mae'r Prif Weinidog a minnau wedi cwrdd â chadeirydd yr Awdurdod Rheilffyrdd Strategol, Richard Bowker, i sicrhau bod ein huchelgais realistig ar gyfer rhwydwaith rheilffyrdd Cymru wedi cael ei ddeall. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn bwriadu ceisio sicrhau pwerau i gyfeirio'r Awdurdod Rheilffyrdd Strategol er mwyn diogelu buddiannau rheilffyrdd Cymru cyn belled ag y mae rhyddfraint Cymru a'r Gororau yn y cwestiwn. Mae proses y rhyddfraint wedi cyrraedd cam y cynnig gorau a therfynol. Mae gofyn i'r rhai sy'n ymgeisio dendro erbyn 7 Ebrill 2003, ac mae'n debygol y bydd yr Awdurdod Rheilffyrdd Strategol yn dod i benderfyniad rhwng mis Mai a mis Mehefin. Disgwylir i'r penderfyniad gael ei weithredu wedyn yn yr hydref yn 2003.

### Gwaith Carthion Newydd yng Nghaergybi

**Peter Rogers:** A all y Gweinidog gadarnhau ai deddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd sydd yn gyfrifol am yr angen i leoli gwaith carthion newydd yng Nghaergybi? (WAQ22910)

**Peter Rogers:** A oes unrhyw gyfarwyddebau neu reoliadau Ewropeaidd a fyddai'n gwahardd ychwanegu rhagor o garthion i system garthion Caergybi? (WAQ22911)

**Peter Rogers:** Pa resymau a roddir dros ddatblygu gwaith carthion newydd yng Nghaergybi? (WAQ22922)

**Sue Essex:** Cafodd cyfarwyddeb trin dŵr gwastraff trefol Comisiwn Ewrop (91/271/EEC) ei throi'n statud gan Reoliadau Trin Dŵr Gwastraff Trefol (Cymru a Lloegr) 1994. Mae'r gyfarwyddeb yn cynnwys gofynion i ddarparu systemau casglu, hy carthffosiaeth, a thrin y carthion cyn eu rhyddhau i'r amgylchedd dyfrol. Yn gyffredinol mae terfynau amser y gyfarwyddeb yn adlewyrchu maint y cymunedau a wasanaethir gan y rhwydwaith carthffosiaeth a natur y dŵr sy'n derbyn y garthffrwd sydd wedi ei thrin. O dan y gyfarwyddeb, rhaid rhoi triniaeth eilaidd i'r dŵr gwastraff trefol o garthffosiaeth Caergybi erbyn 31 Rhagfyr 2005.

### Cyfyngiadau Deddfwriaethol Amgylcheddol

**Peter Rogers:** Pa gyfyngiadau deddfwriaethol amgylcheddol sy'n bodoli mewn perthynas ag ychwanegu carthion o ddatblygiad i system sydd eisoes wedi cyrraedd ei uchafswm, sut y caiff y cyfyngiadau hyn eu gorfodi a gan bwy? (WAQ22912)

**Sue Essex:** Mae 'Polisi Cynllunio Cymru' yn datgan bod yn rhaid i gynhwysedd y seilwaith sy'n bodoli, a'r angen am seilwaith ychwanegol, gael eu cymryd i ystyriaeth wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio. Dylai awdurdodau cynllunio lleol ymgynghori â'r ymgymerwyr carthffosiaeth a'r awdurdodau rheoli llygredd priodol i sicrhau bod cyfleusterau carthffosiaeth priodol yn cael eu darparu, neu fod modd eu darparu, i gludo, trin a gwaredu dŵr gwastraff yn unol â'r ddeddfwriaeth briodol.

### Cyngor Sir Ynys Môn

**Peter Rogers:** A gyhoeddodd Cyngor Sir Ynys Môn foratoriwm ar unrhyw ddatblygiadau adeiladu newydd hyd nes y byddai system garthion newydd Caergybi wedi ei hadeiladu? (WAQ22913)

**Peter Rogers:** A gododd Cyngor Sir Ynys Môn unrhyw foratoriwm a gyhoeddwyd ar unrhyw waith adeiladu newydd hyd nes y byddai system garthion newydd yn cael ei hadeiladu ac os gwnaeth, ar ba sail y cafodd ei godi? (WAQ22914)

**Peter Rogers:** A oesunrhyw waharddiadau ar ddatblygu yng Nghaergybi yn sgil maint annigonol y system garthion? (WAQ22919)

**Peter Rogers:** Sawl prosiect sydd wedi ai atal neu ei ohirio hyd nes y bydd system garthion fwy yng Nghaergybi? (WAQ22920)

**Sue Essex:** Materion i Gyngor Sir Ynys Môn yn y lle cyntaf, fel yr awdurdod cynllunio lleol, yw'r materion yr ydych yn eu codi. Dylech gyfeirio eich cwestiynau at y cyngor sir.

### RAF y Fali

**Peter Rogers:** Gwerthodd y Weinyddiaeth Amddiffyn 400 o dai yn RAF y Fali i gwmni eiddo ac fe'u tynnwyd o'r system garthion breifat—a yw'n fwriad cynnwys y tai hyn yn y system garthion gyhoeddus, ac os ydyw, ym mhle y caiff eu carthion eu gollwng? (WAQ22915)

**Peter Rogers:** Pa system garthion oedd yn arfer gwasanaethu'r eiddo yn RAF y Fali ac yn y cyffiniau agos? (WAQ22916)

**Peter Rogers:** A all y Gweinidog ddweud wrthyf a yw'n fwriad gwerthu mwy o dai ger RAF y Fali gan osod mwy o bwysau ar rwydwaith carthion Caergybi, sydd ar hyn o bryd wedi cyrraedd ei uchafswm? (WAQ22917)

**Sue Essex:** Dywed Dŵr Cymru wrthyf fod y tai, o ganlyniad i benderfyniad cynllunio, i gael eu cysylltu â'r system garthffosiaeth gyhoeddus o fewn yr wythnosau nesaf. Cyfrifoldeb yr awdurdod cynllunio lleol, Cyngor Sir Ynys Môn, yw'r penderfyniad cynllunio. Bydd y carthion yn cael eu rhyddhau i ddalgylch Caergeiliog. Arferai'r tai gael eu gwasanaethu gan system garthffosiaeth a gwaith trin carthion preifat yr RAF. Nid oes gennyf unrhyw wybodaeth am werthu rhagor o dai yn RAF y Fali.

### Rhwydwaith Carthion Caergybi

**Peter Rogers:** Faint o garthion a gaiff eu cario ar hyn o bryd yn rhwydwaith carthion Caergybi a faint yn union yw'r uchafswm y gall ei gario? (WAQ22918)

**Peter Rogers:** Beth yw canlyniadau rhedeg system garthion uwchlaw'r uchafswm, a pha risgiau sydd ynghlwm wrth hynny? (WAQ22921)

**Peter Rogers:** Pa ardaloedd sydd ar hyn o bryd yn elwa o ddefnyddio rhwydwaith Carthion Caergybi ac ers pa bryd y bu hynny? (WAQ22923)

**Sue Essex:** Mae'r rhwydwaith carthffosiaeth yng Nghaergybi a'r cyffiniau yn gweithio i'w lawn gynhwysedd ar hyn o bryd Y perygl o orlwytho system yw y gallai, ar y gwaethaf, beri llifogydd mewnol ac allanol i dai lleol ynghyd â llygredd posibl. Dywedir wrthyf fod Dŵr Cymru a'i gontractwyr sy'n gweithredu'r system garthffosiaeth yn ymwybodol o'r sefyllfa hon ac y byddant yn sicrhau y cymerir gofal ychwanegol i ddelio ag unrhyw broblemau posibl pe baent yn codi. Ers iddo gael ei adeiladu mae rhwydwaith carthffosiaeth Caergybi wedi gwasanaethu eiddo yng Nghaergybi a'r cyffiniau ac ardaloedd Trearddur a'r Fali.

### Adolygiad y Parciau Cenedlaethol

**Nick Bourne:** Pryd fydd adolygiad y parciau cenedlaethol yn cychwyn? (WAQ22930)

**Sue Essex:** Mae swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn dyfarnu'r contract i'w tendrwr llwyddiannus yr wythnos hon a bydd y gwaith adolygu ei hun yn dechrau yn ddiweddarach yn y mis.

### Cyflenwad Dŵr i Dde Ceredigion

**Glyn Davies:** Yn dilyn yr ateb i WAQ16465, beth yw sefyllfa bresennol y cynlluniau i wella'r cyflenwad dwr i dde Ceredigion? (WAQ23029)

**Sue Essex:** Dywed Dŵr Cymru wrthyf fod y cynllun i ddod â chyflenwad dŵr newydd o Gronfa Claerwen ym Mhowys i waith trin dŵr Ystrad Fflur yng Ngheredigion yn mynd rhagddo yn unol â chynllun gwreiddiol y cwmni. Mae dyluniad y gwelliant i'r gwaith trin dŵr bron â chael ei gwblhau ac mae'r gwaith adeiladu i fod i ddechrau tua diwedd mis Ebrill, yn amodol ar gael cymeradwyaeth gynllunio gan yr awdurdod lleol. Mae dyluniad y biblinell o Glaerwen i'r gwaith trin dŵr yn Ystrad Fflur hefyd yn mynd rhagddo'n dda ac mae ei llwybr wedi cael ei ailgynllunio er mwyn lleihau'r effaith amgylcheddol i'r eithaf. Bydd yn rhaid cael y caniatadau perthnasol oddi wrth Gyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd a'r awdurdodau lleol eto cyn y gellir dechrau adeiladu'r biblinell.

### Ffordd Osgoi Robeston Wathen

**Glyn Davies:** Beth yw'r sefyllfa ddiweddaraf o ran cyhoeddi ffordd osgoi Robeston Wathen? (WAQ23030)

**Sue Essex:** Yr wyf yn cydnabod bod angen lleihau effeithiau traffig y gefnffordd ar Robeston Wathen ac mae hyn yn cael ei gymryd i ystyriaeth wrth ddatblygu strategaeth wella i'r A40 i'r gorllewin o Sanclêr. Mae ymgynghorwyr wrthi ar hyn o bryd yn cynnal astudiaeth i gynigion amgen, a disgwylir iddynt adrodd ar eu canfyddiadau yn yr hydref.

### Chwarel Llanfair, Crycywel

**Nick Bourne:** A all y Gweinidog gadarnhau a yw Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi rhoi unrhyw sicrwydd i Markham David Brothers y caniateir iddynt ail-agor Chwarel Llanfair, Crycywel? (WAQ23047)

**Sue Essex:** Nid oes unrhyw sicrwydd wedi cael ei roi gan y Cynulliad y bydd Chwarel Llanfair yn ailagor. Cymeradwywyd gwaith chwarela yn 1948 a chafodd y caniatâd ei gofrestru fel hen ganiatâd mwyngloddio gyda'r Awdurdod Cynllunio Mwynau o dan delerau Deddf Cynllunio ac Iawndal 1991.

Gan fod y chwarel yn segur, byddai'n rhaid i gynllun amodau gwaith newydd gael ei gymeradwyo gan yr Awdurdod Cynllunio Mwynau cyn y gellid ailddechrau chwarela yno.

## Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid

### Siambr Newydd y Cynulliad

**Glyn Davies:** Lle i faint o Aelodau'r Cynulliad, ar ei uchaf, fydd yn Siambr newydd y Cynulliad wedi'r newidiadau diweddaraf i'r dyluniad? (WAQ22901)

**Y Gweinidog Cyllid (Edwina Hart):** Cyfeiriaf yr Aelodau at adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol 'Trefniadau Adeiladau ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru' a gyhoeddwyd ar 2 Tachwedd 2000, sy'n nodi'r ddarpariaeth ar gyfer Aelodau yn y siambr newydd.

### Hysbysebu Swyddi

**Glyn Davies:** Sawl gwaith y mae Llywodraeth y Cynulliad wedi hysbysebu swyddi mewn papurau neu gylchgronau sy'n gysylltiedig â phleidiau gwleidyddol? (WAQ22904) ***Trosglwyddwyd ar gyfer ateb gan y Trefnydd.***

**Y Trefnydd (Carwyn Jones):** Ar un achlysur yn unig y mae Llywodraeth y Cynulliad wedi hysbysebu swyddi mewn papurau neu gylchgronau sy'n gysylltiedig â phleidiau gwleidyddol. Ym mis Ionawr 2001 oedd hynny, pan roddwyd hysbyseb yn *Liberal Democrat News*. Y pwrpas oedd recriwtio dau ymgynghorydd arbennig i aelodau o blaid y Democratiaid Rhyddfrydol ar y Cabinet. Costiodd yr hysbyseb £877.50 a chafodd ei rhoi hefyd yn *The Western Mail*, y *Daily Post, The Guardian, Golwg* a *Y Cymro.*

### Cynyddu Treth Cyngor

**William Graham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y trafodaethau sydd wedi'u cael gyda chynghorau sy'n bwriadu cynyddu eu treth gyngor dros 10 y cant? (WAQ22902)

**Edwina Hart:** Mater i bob awdurdod lleol unigol yw lefel y dreth gyngor.

### Prosiectau Adfywio Cymunedol yng Nghasnewydd

**William Graham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar brosiectau adfywio cymunedol yng Nghasnewydd? (WAQ22903)

**Edwina Hart:** Mae nifer o brosiectau adfywio cymunedol yn effeithio ar ardal Casnewydd. Er enghraifft, o dan Cymunedau yn Gyntaf, mae cyllid o £1.5 miliwn wedi cael ei ddyrannu i helpu i roi'r rhaglen ar waith ar lefel leol yng Nghasnewydd. Hefyd, mae rhaglenni cymunedau cynaliadwy a phobl mewn cymunedau y Cynulliad wedi darparu cyllid o £447,000 i brosiectau yn yr ardal. Yn ogystal, o dan raglen cyfleusterau a gweithgareddau cymunedol y Cynulliad, mae bron i £200,000 wedi cael ei gynnig i 'Bettws in Bloom', sy'n adeiladu canolfan gymdeithasol gymunedol.

Ar ben hynny, bydd Cwmni Adfywio Casnewydd, a sefydlwyd ar 1 Tachwedd 2002, yn arwain y gwaith o adfywio'r ddinas yn economaidd ac o ran ei hadeiladwaith.

### Trefniadau wrth Gefn Boddhaol i Ymdrin â Gweithgarwch Terfysgol

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog restru'r awdurdodau lleol yng Nghymru sydd wedi gwneud trefniadau wrth gefn boddhaol i ymdrin â gweithgarwch terfysgol, a rhestru hefyd y rhai nad ydynt wedi gwneud hynny a phryd y maent yn disgwyl cwblhau'r trefniadau? (WAQ22941)

**Edwina Hart:** Mae gan bob awdurdod lleol yng Nghymru staff sy'n gyfrifol am gynllunio ar gyfer argyfyngau yn y cyd-destun ehangach. Mae cynlluniau'r awdurdodau lleol wedi'u bwriadu i ddelio â phob math o sefyllfa argyfwng a allai godi yn eu hardaloedd. Mae'r cynlluniau hyn yn darparu cymorth i'r gwasanaethau argyfwng; maent yn parhau â'r cymorth a'r gofal arferol i'r gymuned leol a'r gymuned ehangach; maent yn defnyddio adnoddau i liniaru effeithiau'r argyfwng ac yn cyd-drefnu'r ymateb gan gyrff ar wahân i'r gwasanaethau argyfwng.

### Sefydliad Bevan

**David Lloyd:** A yw Sefydliad Bevan wedi cael unrhyw arian gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru neu gan gyrff cyhoeddus a noddir ganddo? (WAQ23025)

**Edwina Hart:** Hyd y gwn i, yr unig gyllid y mae Sefydliad Bevan wedi ei gael yw arian tuag at ddadansoddiad anghenion o dan raglen sgiliau busnes y Cyngor Cenedlaethol—ELWa.

### Monitro Gwerth Am Arian

**Alun Cairns:** Faint o fonitro y mae'r Gweinidog yn ei wneud i sicrhau bod yr adrannau sy'n gwario arian yn y Cynulliad yn cael gwerth am eu harian? (WAQ23159)

**Edwina Hart:** Mae'r adrannau gwario yn asesu a monitro'r gwerth a gânt am eu harian wrth wario. Seilir hynny ar y dyletswyddau statudol y mae'r cyrff y maent yn eu hariannu yn eu darparu yn ogystal ag ar wireddu blaenoriaethau a pholisïau Llywodraeth y Cynulliad. Yr wyf fi'n monitro'r gwerth am arian a geir ar y rhaglenni gwario yn barhaus drwy gylch cynllunio'r gyllideb.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

### Grŵp Datblygu Cartrefi Gofal

**Peter Rogers:** Pa gymorth ariannol y gall cartrefi gofal preifat ar Ynys Môn ei dderbyn yn sgîl y bartneriaeth rhwng y grŵp datblygu cartrefi gofal, ar ynys môn, ac uned datblygu economaidd y cyngor sir? (WAQ22583)

**Peter Rogers:** Pa ffynonellau o gymorth ariannol y gall cartrefi gofal preifat ar Ynys Môn gael mynediad atynt drwy'r Bartneriaeth rhwng uned datblygu economaidd y cyngor sir a'r grŵp datblygu cartrefi gofal? (WAQ22584)

**Peter Rogers:** O ba ffynonellau y gallai'r grŵp datblygu cartrefi gofal, ar Ynys Môn, dderbyn cymorth? (WAQ22590)

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Jane Hutt):** Materion gweithredol i Gyngor Sir Ynys Môn yw'r rhain yn eu hanfod. Deallaf fod ffïoedd cartrefi gofal yn cael eu hystyried gan fforwm ymgynghorol sector preifat y cyngor sir. Mae mathau eraill o gymorth yn dod o fewn cylch gwaith y grŵp datblygu cartrefi gofal. Er nad yw'r grŵp yn darparu cymorth ariannol uniongyrchol mae'n darparu hyfforddiant i staff cartrefi gofal yn y sector preifat a chyhoeddus am gyfraddau cymorthdaledig. Mae hefyd wedi nodi'r cymorth a allai fod ar gael i'r sector annibynnol oddi wrth adran datblygu economaidd y cyngor.

### Grwp Datblygu Cartrefi Gofal

**Peter Rogers:** A oes ffynonellau Ewropeaidd y gall cartrefi gofal preifat ar Ynys Môn gael mynediad atynt drwy'r bartneriaeth rhwng uned datblygu economaidd y cyngor sir a'r grŵp datblygu cartrefi Gofal? (WAQ22585)

**Peter Rogers:** A all y grŵp datblygu cartrefi gofal, ar Ynys Môn, dderbyn unrhyw gyllid Ewropeaidd i'w gynorthwyo? (WAQ22586)

**Peter Rogers:** A all y grŵp datblygu cartrefi gofal, ar Ynys Môn, dderbyn unrhyw gyllid Ewropeaidd a fydd yn cynorthwyo'r sector cartrefi gofal preifat? (WAQ22587)

**Jane Hutt:** Mae cynigion sy'n ceisio cymorth ar ffurf cyllid Ewropeaidd yn cael eu hystyried yn erbyn meini prawf cymhwyso manwl ac ystyrir i ba raddau y maent yn cyd-fynd â strategaeth y rhaglen berthnasol. Yn gyffredinol, ni fydd cyfleusterau lles cymdeithasol megis cartrefi gofal yn gymwys i gael cymorth o dan raglenni Ewropeaidd, ond efallai yr hoffai'r grŵp datblygu cartrefi gofal drafod unrhyw gynigion prosiect penodol gyda phartneriaeth leol Amcan 1 Ynys Môn.

**Sector Cartrefi Gofal Preifat ar Ynys Môn**

**Peter Rogers:** Pa gronfeydd sydd ar gael i gefnogi datblygiad y sector cartrefi gofal preifat ar Ynys Môn? (WAQ22588)

**Peter Rogers:** Pa ffynonellau o gymorth ariannol y gall cartrefi gofal preifat ar Ynys Môn gael mynediad atynt? (WAQ22589)

**Jane Hutt:** Rhwydwaith gwybodaeth, cyngor a chymorth yw porth cymorth busnes Awdurdod Datblygu Cymru. Fe'i noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac mae'n dod â'r holl brif chwaraewyr ym maes cymorth busnes ynghyd mewn partneriaeth. Mae'r gwasanaeth yn agored i unrhyw un y mae angen cymorth busnes arno, er enghraifft, i sefydlu neu ddatblygu busnes, cynllunio busnes, cael cymorth ariannol a marchnata, ayb. Mae gan y porth wybodaeth am yr holl gymorth busnes a ariennir yn gyhoeddus sydd ar gael yng Nghymru, gan gynnwys partneriaid megis ELWa, asiantaethau menter lleol ac awdurdodau lleol. Ar ôl trafod cynlluniau busnes y cleient yn fanwl, bydd y porth yn gallu awgrymu'r ffynonellau cymorth mwyaf priodol. Mewn llawer o achosion gellir cynnig y cymorth yn rhad ac am ddim ac mae'n bosibl hefyd y bydd cymorth ariannol ar gael o dan rai amgylchiadau.

**Cyngor Sir Caerdydd**

**Jonathan Morgan:** Pryd y mae'r Gweinidog yn disgwyl cwrdd ag arweinydd Cyngor Sir Caerdydd er mwyn trafod y ffordd ymlaen, yn dilyn yr adolygiad diweddar o wasanaethau cymdeithasol Caerdydd? (WAQ22618)

**Jonathan Morgan:** Pa gynllun gweithredu y cytunwyd arno gyda Chyngor Sir Caerdydd er mwyn sicrhau'r newidiadau angenrheidiol i'r ddarpariaeth gwasanaethau cymdeithasol, a dros pa gyfnod o amser y cynhelir y newidiadau hynny? (WAQ22619)

**Jane Hutt:** Cyn bo hir bydd Cyngor Caerdydd wedi cwblhau ei gynllun gweithredu yn nodi'r camau y bydd yr awdurdod yn eu cymryd i ymateb i ganfyddiadau adroddiad y cyd-adolygiad ac adroddiad Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ar ddiogelu pobl hŷn yng Nghartrefi Hafod. Bydd y cynllun gweithredu yn nodi'r amserlen ar gyfer cyflawni'r newidiadau sy'n ofynnol. Bydd yn rhaid iddo adlewyrchu'r angen i newid ar unwaith yn y meysydd lle mae'r brys mwyaf a rhoi ymrwymiad estynedig i sicrhau newid i'r graddau sy'n ofynnol dros gyfnod o amser. Deallaf fod y cynllun, ynghyd â'r goblygiadau cyllidebol, yn mynd gerbron y cyngor i gael ei gymeradwyo ar 27 Chwefror ac y'i cyflwynir wedyn i dîm y cyd-adolygiad ac Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru er mwyn iddynt hwy gytuno arno. Bydd yr Arolygiaeth yn nodi trefniadau i fonitro'r gwaith o'i weithredu.

Bwriadaf gwrdd ag arweinydd y cyngor cyn gynted â phosibl ar ôl i'r cynllun gael ei gwblhau'n derfynol er mwyn bodloni fy hun fod y cyngor yn dal i ymroi i atgyfnerthu'r gwasanaethau cymdeithasol yng Nghaerdydd yn ôl yr angen.

## Cadeiryddion Ymddiriedolaethau Iechyd yng Nghymru

**Glyn Davies:** Beth yw'r ystod gyflogau bresennol ar gyfer cadeiryddion ymddiriedolaethau iechyd yng Nghymru a beth fydd ystod gyflogau cadeiryddion byrddau iechyd lleol gan gynnwys unrhyw gynyddrannau yn y dyfodol? (WAQ22712)

**Jane Hutt:** Mae cadeiryddion ymddiriedolaethau iechyd yng Nghymru ar hyn o bryd yn derbyn tâl o £22,040 neu £19,600 yn dibynnu ar yr ymddiriedolaethau GIG. Mae cadeiryddion byrddau iechyd lleol yn derbyn tâl o £16,530 ar hyn o bryd. O 1 Ebrill 2003 bydd cadeiryddion ymddiriedolaethau GIG yn derbyn £30,450 a bydd cadeiryddion byrddau iechyd lleol, yn dibynnu ar faint o amser y maent yn ei rwymo, yn derbyn un ai:

Grŵp 1 - £30,450
Grŵp 2 - £26,250 neu
Grŵp 3 - £22,050.

## Ysbyty Coffa Robert Jones ac Agnes Hall

**Glyn Davies:** Faint o bobl yng nghanolbarth a gogledd Cymru sydd wedi bod yn aros mwy na 12 mis am driniaeth yn Ysbyty Coffa Robert Jones ac Agnes Hall? (WAQ22860)

**Jane Hutt:** Mae trigain a dau o drigolion o fewn Awdurdod Iechyd Dyfed Powys a 118 o drigolion o fewn Awdurdod Iechyd Gogledd Cymru wedi bod yn disgwyl dros 12 mis i gael eu derbyn fel cleifion preswyl neu i gael triniaeth fel achos dydd yn yr arbenigedd orthopedig yn yr ymddiriedolaeth honno.

## Aros am Driniaeth Orthopedig

**Glyn Davies:** Faint o bobl yng Nghymru sydd wedi bod yn aros mwy na 12 mis am driniaeth orthopedig? (WAQ22861)

**Jane Hutt:** Ddiwedd mis Ionawr 2003, yr oedd 2,640 o drigolion o Gymru wedi bod yn disgwyl mwy na 12 mis i gael eu derbyn fel cleifion preswyl neu i gael triniaeth fel achos dydd yn yr arbenigedd orthopedig.

## Aros am Driniaeth Orthopedig

**Glyn Davies:** Faint o bobl yng Ngheredigion, Powys a gogledd Cymru sydd wedi bod yn aros mwy na 12 mis am driniaeth orthopedig? (WAQ22862)

**Jane Hutt:** Ddiwedd mis Ionawr 2003, yr oedd 501 o drigolion o Awdurdod Iechyd Dyfed Powys a 306 o drigolion o Awdurdod Iechyd Gogledd Cymru wedi bod yn disgwyl mwy na 12 mis i gael eu derbyn fel cleifion preswyl neu i gael triniaeth fel achos dydd yn yr arbenigedd orthopedig. Cesglir y ffigurau yn ganolog ac nid ydynt yn darparu cyfrif o nifer y trigolion yn ôl man preswylio ar sail ardaloedd daearyddol llai nag ardal yr awdurdod iechyd.

## Canolfannau Asesu Bach

**Peter Rogers:** Faint o arian sydd ar gael i ariannu canolfannau asesu bach ar gyfer plant awtistig ac eraill sydd ag anghenion addysgol arbennig, i'w defnyddio o ddydd i ddydd fel canolfannau dibreswyl ar Ynys Môn? (WAQ22863)

**Jane Hutt:** Mater i'r awdurdod addysg lleol yw hyn. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ddiweddar wedi darparu hyd at £2 filiwn i ddatblygu Ysgol Plas Brondyffryn, Sir Ddinbych, fel canolfan ragoriaeth ranbarthol ar gyfer awtistiaeth. Cafodd telerau eu datblygu i roi safle Gwynfryn yn rhodd a bydd Jane Davidson a minnau yn torri'r dywarchen gyntaf ar 6 Mawrth.

Mae’r Ddeddf Addysg yn cynnwys nifer o gymalau sy’n berthnasol i Gymru yn unig, ac maent yn caniatáu ar gyfer cydweithio rhanbarthol o safbwynt nwyddau a gwasanaethau. Bydd y Cynulliad yn gweithio’n agos gyda’r AALlau i ystyried sut mae mynd â hyn yn ei flaen.

**Therapyddion Lleferydd Cymwysedig (Cyllid)**

**Peter Rogers:** A oes cynlluniau i ddarparu mwy o arian er mwyn caniatáu i therapyddion lleferydd cymwysedig symud yn gyflym trwy’r system bandio cyflogau? (WAQ22864)

**Jane Hutt:** Mater i’r ymddiriedolaethau unigol yw penderfynu pa mor gyflym y dylai therapyddion lleferydd cymwysedig symud drwy’r system bandio cyflogau yng ngoleuni eu rôl, eu swyddogaeth a’u cyfrifoldeb arbennig a gofynion penodol pob swydd therapi iaith a lleferydd.

**Therapyddion Lleferydd Cymwysedig (System Bandio Cyflogau)**

**Peter Rogers:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion system bandio cyflogau therapyddion lleferydd cymwysedig yng Nghymru? (WAQ22865)

**Jane Hutt:** Mae manylion y system bandio cyflogau i therapyddion lleferydd cymwysedig yng Nghymru ar hyn o bryd ynghlwm. Y cyflogwyr, mewn ymgynghoriad â’r staff, sy’n pennu’r band cywir yn unol ag anghenion swyddi unigol o fewn yr ystod bandiau sydd ar gael.

**Therapyddion Iaith a Lleferydd**

**CYFLOGAU YN DOD I RYM O 1 EBRILL 2002**

| | | Band 1 | Band 2 | Band 3 | Band 4 | Band 5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Pwynt ar y golofn | | | | | | |
| 18 | 15,793 | 15,793 | | | | |
| 19 | 16,424 | 16,424 | | | | |
| 20 | 17,078 | 17,078 | | | | |
| 21 | 17,761 | 17,761 | | | | |
| 22 | 18,473 | 18,473 | | | | |
| 23 | 19,215 | | 19,215 | | | |
| 24 | 19,978 | | 19,978 | | | |
| 25 | 20,781 | | 20,781 | | | |
| 26 | 21,610 | | 21,610 | | | |
| 27 | 22,474 | | 22,474 | | | |
| 28 | 23,374 | | 23,374 | | | |
| 29 | 24,308 | | 24,308 | | | |
| 30 | 25,282 | | 25,282 | | | |
| 31 | 26,293 | | 26,293 | | | |
| 32 | 27,342 | | 27,342 | | | |
| 33 | 28,438 | | 28,438 | | | |
| 34 | 29,576 | | | | | |
| 35 | 30,756 | | | | | |
| 36 | 31,989 | | | 31,989 | | |
| 37 | 33,269 | | | 33,269 | | |
| 38 | 34,599 | | | 34,599 | | |
| 39 | 35,982 | | | 35,982 | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 40 | 37,421 | | | 37,421 | 37,421 | |
| 41 | 38,919 | | | 38,919 | 38,919 | 38,919 |
| 42 | 40,475 | | | | 40,475 | 40,475 |
| 43 | 42,095 | | | | 42,095 | 42,095 |
| 44 | 43,780 | | | | 43,780 | 43,780 |
| 45 | 45,531 | | | | 45,531 | 45,531 |
| 46 | 47,349 | | | | 47,349 | 47,349 |
| 47 | 49,245 | | | | 49,245 | 49,245 |
| 48 | 51,215 | | | | 51,215 | 51,215 |
| 49 | 53,265 | | | | | 53,265 |
| 50 | 55,396 | | | | | 55,396 |
| 51 | 57,611 | | | | | 57,611 |
| 52 | 59,918 | | | | | 59,918 |
| 53 | 62,312 | | | | | 62,312 |

* Priodolir graddfa gyflog bersonol o unrhyw dri phwynt dilynol o fewn yr ystod 18-22 (Band 1), 23-33 (Band 2) a 36-41 (Band 3) ar y golofn gyflogau i swyddi unigol.

I swyddi arbennig o anodd ar frig Band 2 nad ydynt yn ateb diffiniad Band 3 y mae pwyntiau 34 a 35 ar y golofn gyflogau ar gael.

Priodolir graddfa gyflog bersonol o unrhyw wyth pwynt dilynol o fewn yr ystod 41-53 ar y golofn gyflogau i swyddi ym mand 5.

### Therapyddion Lleferydd Cymwysedig

**Peter Rogers:** Faint o arian a neilltuir i ddenu therapyddion lleferydd sydd newydd gymhwyso i ogledd Cymru a Môn, a pha gymhellion sydd ar gael iddynt arbenigo mewn awtistiaeth? (WAQ22866)

**Peter Rogers:** Pa adnoddau sydd ar gael i hyrwyddo therapi lleferydd fel gyrfa yng ngogledd Cymru? (WAQ22875)

**Jane Hutt:** Nid oes arian canolog penodol ar gael i ddenu therapyddion lleferydd sydd newydd gymhwyso nac i hyrwyddo therapi lleferydd fel gyrfa yn rhanbarth Gogledd Cymru. Yn yr un modd, nid oes cynlluniau penodol i annog therapyddion lleferydd sydd newydd gymhwyso i arbenigo mewn awtistiaeth.

Seilir y cynlluniau gweithlu ar yr anghenion staff a ddynodir gan yr ymddiriedolaethau ac mae'r rheini yn eu tro yn dylanwadu ar y niferoedd hyfforddi a gomisiynir. O ganlyniad, yr ydym wedi cynyddu nifer y therapyddion iaith a lleferydd sy'n cael eu hyfforddi yng Nghymru er mwyn diwallu anghenion ymddiriedolaethau Cymru. Mae'r trafodaethau ynglŷn ag ehangu'r rhaglen addysg i therapyddion iaith a lleferydd yn cynnwys yr opsiwn o gynnig rhywfaint o ddarpariaeth yng ngogledd Cymru. Mae'r strategaeth recriwtio a chadw i GIG Cymru yn adeiladu ar y strategaethau unigol sydd wedi eu sefydlu ym mhob ymddiriedolaeth erbyn hyn.

### Cyrsiau Therapi Lleferydd

**Peter Rogers:** A yw nifer y lleoedd sydd ar gael ar gyrsiau therapi lleferydd wedi cynyddu neu ostwng yn y pum mlynedd diwethaf, a beth yw'r ffigurau hynny? (WAQ22867)

**Peter Rogers:** Sawl lle a gynigir bob blwyddyn ar gyrsiau therapi lleferydd a faint o fyfyrwyr sydd ar y cwrs ar hyn o bryd? (WAQ22868)

**Peter Rogers:** Sawl canolfan yng Nghymru sy'n cynnig hyfforddiant ar gyfer myfyrwyr therapi lleferydd? (WAQ22869)

**Peter Rogers:** A oes cynlluniau i sefydlu canolfan astudio therapi lleferydd yng Ngogledd Cymru? (WAQ22872)

**Jane Hutt:** Mae nifer y lleoedd hyfforddi therapi iaith a lleferydd sydd ar gael yng Nghymru wedi cynyddu 21 y cant er 1999. Comisiynodd y Cynulliad 33 o fyfyrwyr yn 1999 a bydd yn cefnogi derbyn 40 o fyfyrwyr yn 2003.

Cyn 1998, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru oedd yn cyllido hyfforddiant therapi iaith a lleferydd, ond er 1998 y GIG fu'n gyfrifol am gyllido'r hyfforddiant hwn. Er bod y Cynulliad wedi cynyddu'r niferoedd a gomisiynir, cydnabyddir bod y galw am hyfforddiant therapi iaith a lleferydd, fel a welir yng nghynlluniau gweithlu ymddiriedolaethau'r GIG, yn uwch na'r gallu hyfforddi yng Nghymru ar hyn o bryd. Mae 105 o fyfyrwyr yn gwneud y cwrs ar hyn o bryd.

Rhaglen 4 blynedd amser llawn, a gynhelir yn Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd, yw'r ddarpariaeth addysg cyn-cofrestru i therapyddion iaith a lleferydd yng Nghymru ar hyn o bryd. Mae trafodaethau yn cael eu cynnal rhwng y Cynulliad, yr athrofa a darparwyr gwasanaeth i weld sut y gellir cynyddu'r niferoedd hyfforddi ymhellach. Ymysg yr opsiynau sy'n cael eu hystyried mae datblygu'r rhaglen bresennol yn yr athrofa, cyflwyno rhaglen gyflym a darparu cwrs yng ngogledd Cymru, a allai fod â phwyslais ar ddarparu therapi drwy gyfrwng y Gymraeg.

### Therapyddion Lleferydd Cymwysedig

**Peter Rogers:** Faint o therapyddion lleferydd cymwysedig a gyflogir gan Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Orllewin Cymru a faint sy'n arbenigo mewn awtistiaeth? (WAQ22870)

**Jane Hutt:** Ar 30 Medi 2001—yr ystadegau diweddaraf sydd ar gael—yr oedd 21 (18.6 cyfwerth ag amser llawn) therapydd lleferydd cymwysedig mewn swyddi yn Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Orllewin Cymru. Ni wyddys yn ganolog sawl un o'r rhain sy'n arbenigo mewn awtistiaeth.

### Therapyddion Lleferydd yng Ngogledd Cymru

**Peter Rogers:** Pa gamau sy'n cael eu cymryd i gynyddu nifer y therapyddion lleferydd yng ngogledd Cymru? (WAQ22871)

**Jane Hutt:** Fis Mehefin diwethaf, cyhoeddais fod targedau gweithlu yn cael eu gosod am y blynyddoedd hyd at 2010 ar sail yr anghenion staffio a ddynodwyd gan y GIG. Bydd y targed o 2,000 o weithwyr iechyd proffesiynol ychwanegol yn cynnwys therapyddion iaith a lleferydd. Mae targedau wedi cael eu gosod ar gyfer ymddiriedolaethau unigol, gan gynnwys y rheini yng ngogledd Cymru. Diben y broses flynyddol o gynllunio'r gweithlu yw canfod beth yw'r angen o fewn y gwasanaeth iechyd yng Nghymru.

Ar 10 Chwefror 2003, dechreuwyd ymgyrch dychwelyd i ymarfer wedi'i hanelu at weithwyr proffesiynol perthynol i iechyd, gan gynnwys therapyddion iaith a lleferydd sy'n dymuno dychwelyd i weithio yn GIG Cymru. Darperir bwrsariaethau i gynorthwyo gweithwyr proffesiynol sy'n dychwelyd i'r maes.

Mae ymgynghorydd gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd y Cynulliad dros recriwtio a chadw staff yn gweithio gyda'r proffesiwn therapi iaith a lleferydd i ymdrin â'r problemau staffio sy'n bodoli ar hyn o bryd. Mae grŵp gweithredu therapi iaith a lleferydd, sy'n cynnwys amryw o gynrychiolwyr rhanddeiliaid, wedi datblygu is-grwpiau i ymdrin â materion penodol yn ymwneud â recriwtio, cadw a hyfforddi therapyddion iaith a lleferydd ledled Cymru.

Yn ddiweddarach eleni caiff digwyddiadau eu cynnal yng ngogledd Cymru yn ystod wythnos agored y GIG. Bydd y rhain yn codi ymwybyddiaeth mewn ysgolion o'r cyfleoedd i weithio ym mhroffesiynau'r GIG.

**Therapi Lleferydd (Cwrs Galwedigaethol yn y GIG)**

**Peter Rogers:** A wnewch chi gadarnhau bod therapi lleferydd yn gwrs galwedigaethol yn y GIG, ac nad oes rhaid talu ffioedd? (WAQ22873)

**Jane Hutt:** Mae'r cwrs therapi iaith a lleferydd yn Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd yn gwrs a gyllidir gan y GIG ac, o'r herwydd, ni fyddai unrhyw fyfyriwr sy'n ennill lle a gyllidir gan y GIG yn gorfod talu ffïoedd hyfforddi. Yn ychwanegol at gael eu heithrio rhag talu ffïoedd, mae pob myfyriwr GIG ar y cwrs hwn yn gymwys i gael bwrsariaeth sy'n ddarostyngedig i brawf moddion.

**Plant ym Môn sydd ag Angen Therapi Lleferydd**

**Peter Rogers:** Faint o blant ym Môn sydd ag angen therapi lleferydd a pha ganran sy'n cael triniaeth reolaidd. (WAQ22874)

**Jane Hutt:** Nid yw'r ffigurau hyn yn cael eu casglu'n ganolog ar hyn o bryd. Yr wyf wedi sefydlu grŵp monitro amseroedd aros diagnostig a therapi sy'n bwriadu casglu gwybodaeth am therapïau. Y nod wedyn yw y byddwn mewn sefyllfa i gymharu a gwella gwasanaethau ar draws Cymru gyfan. Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo ar hyn o bryd. Mae'r gwaith casglu data yn mynd drwy'r broses ddilysu ac mae canllawiau arferion gorau yn cael eu datblygu a'u dosbarthu er mwyn rheoli'r rhestrau aros.

**Ysbyty'r Glowyr yng Nghaerffili**

**Ron Davies:** Pryd y mae'n disgwyl cymeradwyo cyd-destun bras y strategaeth ar gyfer yr hyn a ddaw yn lle Ysbyty'r Glowyr yng Nghaerffili? (WAQ22876)

**Ron Davies:** Beth yw ei hamserlen ar gyfer ystyried a chymeradwyo achos busnes bras yr hyn a ddaw yn lle Ysbyty'r Glowyr yng Nghaerffili? (WAQ22877)

**Jane Hutt:** Mae Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Gwent wrthi'n gweithio ar ffordd strategol o ymdrin â gofal iechyd ar draws yr ardal y mae yn ei gwasanaethu a bydd hyn yn cymryd i ystyriaeth gynigion i wneud darpariaeth newydd yn lle Ysbyty'r Glowyr yng Nghaerffili. O ganlyniad, nid yw'r ymddiriedolaeth wedi cyflwyno ei hachos busnes eto. Hyd nes y daw'r achos busnes i law, ni fyddaf mewn sefyllfa i nodi'r amserlen debygol ar gyfer ei ystyried.

**Uned Salwch Meddwl yr Henoed/Ward Glasmor yn Ysbyty Penrhos Stanley**

**Peter Rogers:** Faint o welyau a ddarperir yn yr uned salwch meddwl yr henoed/ward Glasmor yn Ysbyty Penrhos Stanley, Caergybi? (WAQ22878)

**Jane Hutt:** Nid oes gwybodaeth am welyau ar lefel wardiau yn cael ei chasglu'n ganolog. Fodd bynnag, yn y chwarter yn gorffen 30 Medi 2002—yr ystadegau diweddaraf sydd ar gael—yr oedd 15 gwely yn Ysbyty Penrhos Stanley yn arbenigedd seiciatreg yr henoed.

**Uned Salwch Meddwl yr Henoed/Ward Glasmor yn Ysbyty Penrhos Stanley**

**Peter Rogers:** Faint o welyau yn yr uned salwch meddwl yr henoed/ward Glasmor yn Ysbyty Penrhos Stanley, Caergybi sy'n cael eu neilltuo i roi gofal geriatrig neu seiciatrig hirdymor? (WAQ22879)

**Peter Rogers:** A wnewch chi gadarnhau mai diben yr uned salwch meddwl yr henoed/ward Glasmor yn Ysbyty Penrhos Stanley yw asesu cleifion sy'n dangos arwyddion cynnar clefyd Alzheimer neu gyflyrau cysylltiedig? (WAQ22880)

**Peter Rogers:** A wnewch chi gadarnhau mai'r uned salwch meddwl yr henoed/ward Glasmor yn Ysbyty Penrhos Stanley yw'r unig uned asesu yn Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Orllewin Cymru sy'n cynnig cyfleusterau i gleifion â chlefyd Alzheimer yn y Gogledd/Ynys Môn? (WAQ22881)

**Peter Rogers:** A wnewch chi gadarnhau bod cleifion mewnol mewn gwelyau asesu uned salwch meddwl yr henoed/ward Glasmor yn Ysbyty Penrhos Stanley ar hyn o bryd sydd wedi bod yn y gwelyau hynny am rhwng dwy a saith mlynedd? (WAQ22882)

**Peter Rogers:** A wnewch chi gadarnhau bod un claf mewnol mewn gwely asesu yn yr uned salwch meddwl yr henoed/ward Glasmor yn Ysbyty Penrhos Stanley sydd wedi bod yn y gwely hwnnw am gyfanswm o saith mlynedd? (WAQ22883)

**Jane Hutt:** Mae'r wybodaeth yr ydych yn ei cheisio yn ymwneud â materion gweithredol i'r ymddiriedolaeth GIG. Mae fy swyddogion wedi ysgrifennu at brif weithredwr Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Orllewin Cymru ac wedi gofyn iddo anfon ateb i'r cwestiynau hyn yn uniongyrchol atoch chi. Byddant yn rhoi copi o ymateb yr ymddiriedolaeth yn y Llyfrgell.

### Cyfyngiadau ar Ymuno â'r Farchnad Fferyllfeydd Cymunedol

**Alun Pugh:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y goblygiadau i fferyllfeydd yng Nghymru yn sgil cynigion y Swyddfa Masnachu Teg i gael gwared ar y cyfyngiadau ar ymuno â'r farchnad fferyllfeydd cymunedol? (WAQ22884)

**Jane Hutt:** Ers cyhoeddi'r adroddiad, yr wyf wedi derbyn llawer iawn o ohebiaeth oddi wrth Aelodau Cynulliad, Aelodau Seneddol, cyrff cynrychiadol a fferyllwyr unigol. Er bodamrywiaeth barn, mae llawer o'r gohebyddion hyn yn pwysleisio'r angen i mi fod yn wyliadwrus o'r effaith y gallai argymhellion yr adroddiad ei chael ar fferyllfeydd bach, yn arbennig yn rhannau gwledig Cymru. Byddaf yn pwyso a mesur y farn hon a safbwyntiau i'r gwrthwyneb yn ofalus iawn cyn penderfynu ar fy ymateb.

### Safonau Ffisegol Cartrefi Gofal

**David Melding:** A yw'r Gweinidog yn bwriadu adolygu'r rheoliadau sy'n pennu safonau ffisegol cartrefi gofal? (WAQ22924)

**Jane Hutt:** Yr wyf wedi adolygu'r safonau hyn a gwneuthum gyhoeddiad ar 3 Medi 2002. Yn gyffredinol, nid wyf yn bwriadu gwneud unrhyw newidiadau i'r safonau ffisegol, ond yr wyf am weld y safonau yn cael eu cyrraedd mewn modd synhwyrol a hyblyg. Er mwyn adlewyrchu ymdriniaeth felly, cyhoeddodd pennaeth Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru ganllawiau gweithredol newydd i'w arolygwyr yn ddiweddar ar sut y mae'n disgwyl i'r rheoliadau a'r safonau gael eu rhoi ar waith. Adlewyrchai'r rhain drafodaethau gyda darparwyr a defnyddwyr. Rhoddwyd manylion y trefniadau newydd hyn mewn papur i'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol am grŵp strategaeth gofal Cymru ar 5 Chwefror 2003 (HSS-02-02 (td2)). Caiff effaith y canllawiau newydd hyn ei monitro a'i hadolygu. Yn ogystal, yr wyf yn ymgynghori ar hyn o bryd ynglŷn â newidiadau posibl i'r gofynion ffisegol a gweinyddol i gartrefi bach ar gyfer pobl hŷn (cartrefi sydd â thri gwely neu lai) er mwyn adlewyrchu natur ddomestig y sefydliadau hyn. Byddaf yn ymgynghori eto ynglŷn â'r safonau i gartrefi gofal llai ar gyfer pobl o dan 65.

### Swyddfa Ranbarthol y GIG yn Ne-Ddwyrain Cymru

**David Melding:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch Swyddfa Ranbarthol y GIG yn Ne-Ddwyrain Cymru? (WAQ22925)

**Jane Hutt:** Bydd swyddfa ranbarthol y GIG yn y De-ddwyrain, ynghyd â'r swyddfeydd rhanbarthol i'r Gogledd a'r Canolbarth a'r Gorllewin, yn galluogi adran GIG Cymru i gynnal ffocws rhanbarthol er mwyn sicrhau bod targedau ac amcanion Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cael eu gwireddu, ac i gynorthwyo cyrff GIG yn yr ardal. Caiff swyddfa ranbarthol y De-ddwyrain ei lleoli i ddechrau mewn ystafelloedd dros dro yn Nhŷ Aberhonddu, Mamhilad, Pont-y-pŵl.

### Swyddi Meddygon Teulu Gwag yng Nghymru

**David Lloyd:** Faint o swyddi meddygon teulu yng Nghymru sydd wedi bod yn wag am y chwe mis diwethaf a faint sydd wedi parhau'n wag am y 10 mis diwethaf? (WAQ22931) [R]

**Jane Hutt:** Cofnododd y data diweddaraf sydd ar gael (y pwyllgor swyddi meddygol gwag) fod 27 o'r 64 o swyddi meddygon teulu gwag cyfwerth ag amser llawn a fodolai ar 31 Rhagfyr 2002 wedi bod yn wag am chwe mis neu fwy, a 13 am 10 fis neu fwy.

### Llenwi Swydd Meddyg Teulu yng Nghymru

**David Lloyd:** Yn ôl y ffigurau diweddaraf, faint o amser a gymerir ar gyfartaledd i lenwi swydd meddyg teulu yng Nghymru? (WAQ22932) [R]

**Jane Hutt:** Y cyfnod a gymerodd ar gyfartaledd i lenwi swydd meddyg teulu yng Nghymru rhwng Mawrth 2001 a Chwefror 2002 oedd 108 o ddiwrnodau (arolwg recriwtio, cadw a swyddi gwag meddygon teulu 2002, Cymru a Lloegr: yr Adran Iechyd).

### Gwelyau Gofal Nyrsio a Gwelyau Gofal Preswyl

**David Lloyd:** Ar hyn o bryd, faint o welyau gofal nyrsio sy'n wag a faint o welyau gofal preswyl sy'n wag ym mhob awdurdod lleol? (WAQ22933) [R]

**Jane Hutt:** Mae'r ffigurau cyflawn diweddaraf a gyflwynwyd i'r Cynulliad yn ymdrin â'r flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2001 ac fe'u cyhoeddir yn nhablau 2.4, 3.12, 4.12 a 6.3 'Ystadegau Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru 2002', y mae copi ohono yn y Llyfrgell.

### Oedi wrth Drosglwyddo Gofal

**David Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog rannu'r 1,073 achos o oedi wrth drosglwyddo gofal ym mis Ionawr 2003 yng Nghymru yn ôl eu hawdurdod lleol? (WAQ22934) [R]

**Jane Hutt:** Mae cyfrifiad oedi wrth drosglwyddo gofal Llywodraeth Cynulliad Cymru yn defnyddio system ddiffinio ac adrodd sy'n cynnwys wyth prif gategori a 45 rheswm dros oedi. Mae'r rhesymau hyn yn cwmpasu oedi yn y sectorau aciwt ac an-aciwt am resymau iechyd, gofal cymdeithasol a rhesymau yn ymwneud â'r teulu/y claf, ac maent yn galluogi'r partneriaid lleol i ganfod a rhoi sylw i rwystrau ar hyd a lled y system gyfan.

O'r 1073 o achosion o oedi a gofnodwyd adeg cyfrifiad Ionawr 2003, yr oedd 13 unigolyn yn breswylwyr o Loegr ac nid oedd cod awdurdod lleol wedi ei gofnodi gyferbyn â 67 o unigolion eraill. Mae'r 67 yn cynnwys pobl heb gartref sefydlog a phobl yr oedd y cod post ar eu cyfer un ai'n absennol neu wedi ei nodi'n anghywir. Mae'r gronfa ddata wedi cofnodi mai o fewn ardaloedd yr awdurdodau lleol isod yr oedd preswylfan arferol y 993 unigolyn sy'n weddill.

| | Gofal Cymdeithasol | | Gofal Iechyd | | Yn ymwneud â'r Claf/ Gofalwr/Teulu | | | Arall | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Awdurdod Lleol** | **1** | **2** | **3** | **4** | **5** | **6** | **7** | **8** | **Cyfanswm** |
| Blaenau Gwent | 2 | 32 | 2 | 4 | 0 | 0 | 13 | 0 | **53** |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 1 | 3 | 1 | 0 | 0 | 1 | 7 | 0 | **13** |
| Caerffili | 29 | 34 | 3 | 10 | 1 | 0 | 4 | 0 | **81** |
| Caerdydd | 3 | 23 | 20 | 38 | 0 | 7 | 49 | 1 | **141** |
| Sir Gaerfyrddin | 1 | 48 | 8 | 12 | 0 | 6 | 9 | 0 | **84** |
| Ceredigion | 1 | 5 | 2 | 1 | 1 | 1 | 20 | 0 | **31** |
| Conwy | 0 | 1 | 0 | 5 | 0 | 0 | 5 | 0 | **11** |
| Sir Ddinbych | 1 | 3 | 2 | 8 | 0 | 0 | 5 | 0 | **19** |
| Sir y Fflint | 2 | 16 | 3 | 7 | 0 | 1 | 15 | 0 | **44** |
| Gwynedd | 0 | 0 | 2 | 7 | 0 | 3 | 8 | 0 | **20** |
| Ynys Môn | 0 | 1 | 0 | 1 | 0 | 2 | 3 | 0 | **7** |
| Merthyr Tudful | 0 | 1 | 0 | 2 | 0 | 1 | 7 | 0 | **11** |
| Sir Fynwy | 0 | 1 | 1 | 6 | 0 | 4 | 4 | 1 | **17** |
| Castell-nedd Port Talbot | 0 | 11 | 2 | 9 | 1 | 1 | 19 | 0 | **43** |
| Casnewydd | 5 | 22 | 3 | 9 | 3 | 0 | 12 | 0 | **54** |
| Sir Benfro | 16 | 9 | 2 | 3 | 0 | 1 | 0 | 0 | **31** |
| Powys | 0 | 17 | 2 | 1 | 0 | 0 | 3 | 0 | **23** |
| Rhondda Cynon Taf | 1 | 3 | 1 | 25 | 0 | 2 | 55 | 0 | **87** |
| Abertawe | 1 | 30 | 2 | 25 | 1 | 6 | 12 | 0 | **77** |
| Tor-faen | 3 | 39 | 2 | 4 | 0 | 2 | 12 | 0 | **62** |
| Bro Morgannwg | 0 | 8 | 3 | 11 | 1 | 2 | 9 | 0 | **34** |
| Wrecsam | 2 | 16 | 7 | 12 | 0 | 0 | 12 | 1 | **50** |
| **Cyfanswm yr Awdurdodau Lleol** | **68** | **323** | **68** | **200** | **8** | **40** | **283** | **3** | **993** |

**Nyrsys Rhyngwladol a Gyflogwyd gan y GIG**

**Rhodri Glyn Thomas:** Faint o nyrsys rhyngwladol a gyflogwyd gan y GIG, ym mhob ymddiriedolaeth NHS, bob blwyddyn ers 1998? (WAQ22935)

**Rhodri Glyn Thomas:** Faint o nyrsys rhyngwladol a ymadawodd â'r GIG yng Nghymru cyn i'w contractau ddod i ben, a faint ohonynt a gafodd gosbau ariannol o ganlyniad? (WAQ22936)

**Rhodri Glyn Thomas:** Faint o'r nyrsys rhyngwladol a gyflogir gan y GIG sy'n gwneud cais am estyniad i'w contractau gwreiddiol, a faint sy'n adnewyddu eu contractau gwreiddiol? (WAQ22937)

**Rhodri Glyn Thomas:** Faint yw'r gost cyfartalog o recriwtio nyrs ryngwladol i'r GIG yng Nghymru a sut mae hyn yn cymharu â'r gost o recriwtio nyrsys sy'n dychwelyd i'r GIG? (WAQ22938)

**Rhodri Glyn Thomas:** Faint o nyrsys sydd wedi dychwelyd i'r GIG yng Nghymru bob blwyddyn ers 1998, a faint ohonynt sy'n weithwyr amser llawn ac yn weithwyr rhan amser? (WAQ22939)

**Rhodri Glyn Thomas:** Faint o nyrsys a gyflogwyd gan y GIG trwy asiantaeth ym mhob ymddiriedolaeth bob blwyddyn ers 1998, a faint oedd cyfanswm y gost i'r GIG yng Nghymru? (WAQ22940)

**Jane Hutt:** Ni chedwir y wybodaeth a geisir yn ganolog.

**Amseroedd Ymateb Ambiwlansys**

**Nick Bourne:** Beth yw'r targed a bennwyd ar gyfer amseroedd ymateb ambiwlansys ledled Cymru, ac i ba raddau y mae'r amseroedd yn amrywio ym Mrycheiniog ac, os oes oes cryn wahanaieth, pa gamau sy'n cael eu cymryd i ddelio â'r diffyg yn y gwasanaeth? (WAQ22945)

**Jane Hutt:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cytuno gyda'r ymddiriedolaeth ambiwlans mai ei tharged cyffredinol i alwadau lle mae perygl ar unwaith i fywyd yw sicrhau ymateb mewn wyth munud mewn 60 y cant o achosion, erbyn Mawrth 2004. Caiff y wybodaeth ei chasglu ar sail ardaloedd yr awdurdodau unedol, felly nid yw'n bosibl darparu data am Frycheiniog; ond ar gyfer Powys, yr oedd y perfformiad yn 46 y cant yn Ionawr 2003 o'i gymharu â pherfformiad o 54 y cant gan yr ymddiriedolaeth ambiwlansys yn gyffredinol. Ei tharged ar gyfer pob galwad argyfwng arall yw 95 y cant o fewn 21 munud, a chyrhaeddodd yr amser ymateb mewn 86 y cant o achosion ym mis Ionawr eleni, o'i gymharu â pherfformiad yr ymddiriedolaeth ambiwlans yn gyffredinol o 89 y cant.

Yn 2002-03, neilltuais £1 miliwn ychwanegol i'r ymddiriedolaeth ambiwlans i wella'r amseroedd ymateb ar draws Cymru a galluogodd hyn yr ymddiriedolaeth i gyflwyno ail ambiwlans dydd yn y Drenewydd, Powys. Fel rhan o £2.5 miliwn ychwanegol, a fydd ar gael i'r ymddiriedolaeth ym mis Ebrill 2003, bydd yr ymddiriedolaeth yn uwchraddio gorsaf Machynlleth yn orsaf 24 awr lawn ac yn nodi nifer o safleoedd ymateb cyntaf ledled Powys, er mwyn gwella'r amser ymateb wyth munud.

**Amser Ymateb y Gwasanaeth Ambiwlans**

**Nick Bourne:** Beth yw amser ymateb y gwasanaeth ambiwlans yn Aberhonddu i alwadau 999 ar hyn o bryd, a beth oedd yr amser ymateb ym 1997, 1998, 1999, 2000 a 2001? (WAQ22946)

**Jane Hutt:** Caiff y wybodaeth ei chasglu ar sail ardaloedd yr awdurdodau unedol. Felly, nid yw'n bosibl darparu data am Frycheiniog ond fe'i rhoddir am Bowys o 1 Ebrill 1999, gan y cawsai ei gasglu ar sail ardaloedd yr hen awdurdodau iechyd cyn hynny.

| | | **Galwadau Categori A** (perygl ar unwaith i fywyd) | | **Galwadau Categori B** (pob galwad argyfwng arall) |
|---|---|---|---|---|
| Blwyddyn yn gorffen 31 Mawrth | Ardal: | % ymateb cyntaf wedi cyrraedd o fewn wyth munud | % ambiwlansys yn cyrraedd o fewn 21 munud | % yn cyrraedd o fewn 21 munud |
| 2000 | Powys | 49 | 89 | 89 |
| 2001 | Powys | 53 | 92 | 91 |
| 2002 | Powys | 48 | 89 | 89 |
| 2003** | Powys | 46 | 88 | 88 |

** Naw mis hyd at 31 Rhagfyr 2002

**Parafeddygon wedi'u Hyfforddi yn Sir Frycheiniog**

**Nick Bourne:** Faint o barafeddygon wedi'u hyfforddi sydd ar gael yng ngwasanaeth ambiwlans Sir Frycheiniog? (WAQ22947)

**Jane Hutt:** Mae'r wybodaeth am nifer y staff parafeddygol yn cael ei chasglu'n ganolog ar gyfer Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwlans Cymru yn ei chyfanrwydd. Nid yw'n bosibl, felly, rhoi data am Sir Frycheiniog yn unig.

## Darpariaeth Ambiwlans yn Sir Frycheiniog

**Nick Bourne:** Pa ddarpariaeth ambiwlans sydd yn ardal Aberhonddu os yw ambiwlansys Aberhonddu ac Ystradgynlais allan o'r ardal? (WAQ22948)

**Nick Bourne:** Pa ddarpariaeth ambiwlans sydd yn Sir Frycheiniog pan fydd ambiwlans Aberhonddu allan o'r orsaf? (WAQ22949)

**Jane Hutt:** Mae trefniadau lleoli ar waith ym mhob canolfan reoli er mwyn rheoli'r criwiau sydd ar gael a'r newidiadau yn y galw. Yn dibynnu ar yr adeg o'r dydd, mae gwahanol gynlluniau ar waith. Os yw rhwng 8 a.m. a hanner nos,mae'n fwyaf tebygol mai Llanfair-ym-Muallt, Bronllys neu Grucywel fydd yn sicrhau darpariaeth. Ar ôl hanner nos, bydd Llandrindod a/neu y Fenni yn cael eu hanfon i fannau aros strategol.

## Darpariaeth Ambiwlans yn Aberhonddu

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddweud pa ddarpariaeth ambiwlans sydd ar gael yn Aberhonddu? (WAQ22950)

**Jane Hutt:** Uwchraddiodd yr ymddiriedolaeth yr ambiwlans argyfwng yn Aberhonddu o ddarpariaeth aros galwad i staffio 24 awr llawn dair blynedd yn ôl.

## Lesddaliad Ysbyty Brenhinol Caerdydd

**Owen John Thomas:** Beth yw'r prisiad diweddaraf ar fuddiannau'r Cynulliad Cenedlaethol yn lesddaliad Ysbyty Brenhinol Caerdydd, a phryd y gwnaed y prisiad hwnnw? (WAQ23002)

**Jane Hutt:** Mae ymgynghoriad cyhoeddus ar y gweill ynglŷn â dyfodol safle Ysbyty Brenhinol Caerdydd ac ni allaf ei ragfarnu.

Pe na byddai angen y safle mwyach a'i fod yn addas i gael ei werthu, byddai ei werth yn y pen draw yn dibynnu ar ganlyniadau trafodaethau neu negodiadau gyda'r rhydd-ddeiliad presennol.

At ddibenion mewnol y mae prisiannau ac ni ddatgelir hwy, gan y gallai hyn beryglu unrhyw broses neu negodiadau gwerthu i'r dyfodol.

## Ardaloedd Chwarae Mynediad Agored

**Peter Rogers:** Pwy sy'n cynrychioli Llywodraeth Cynulliad Cymru ac yn cymryd cyfrifoldeb dros faterion ynghylch ardaloedd chwarae mynediad agored? (WAQ23008)

**Peter Rogers:** Pa fecanweithiau sydd yn eu lle i sicrhau bod cydraddoldeb parhaus yn y ffordd y dosberthir arian rhwng ardaloedd chwarae cyhoeddus â mynediad agored ac ardaloedd chwarae ysgolion? (WAQ23009)

**Peter Rogers:** Sut y gellir sicrhau bod cydraddoldeb o ran yr arian a roddir i'r ardaloedd chwarae mynediad agored ac ardaloedd chwarae yr ysgolion? (WAQ23010)

**Peter Rogers:** Sut y gall Llywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau bod cydraddoldeb o ran yr arian a roddir i'r ardaloedd chwarae mynediad agored ac ardaloedd chwarae yr ysgolion? (WAQ23011)

**Peter Rogers:** Ai'r awdurdod lleol sy'n penderfynu ar yr holl faterion dosbarthu cyllid sy'n ymwneud â chwarae mynediad agored? (WAQ23012)

**Jane Hutt:** Darperir cyllid ar gyfer chwarae mynediad agored, am y flwyddyn ariannol hon, drwy gronfa'r bartneriaeth plant a phobl ifanc. Cyfrifoldeb y bartneriaeth plant a phobl ifanc yw dosbarthiad y cyllid. Mae awdurdodau lleol, awdurdodau iechyd a'r sector gwirfoddol i gyd yn aelodau o'r bartneriaeth. Daw'r maes hwn o fewn fy maes cyfrifoldeb i.

O fis Ebrill 2003, bydd y bartneriaeth plant a phobl ifanc yn uno â Chychwyn Cadarn a'r strategaeth gofal plant genedlaethol i ffurfio Cymorth—y gronfa gymorth i blant a phobl ifanc. Bydd cyllid ar gyfer chwarae mynediad agored yn cael ei gynnwys yn y cynllun grantiau hwn. Cyfrifoldeb y partneriaethau plant a phobl ifanc fydd dosbarthu'r cyllid. Daw'r partneriaethau hyn â'r holl bartneriaid lleol sy'n darparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc ynghyd. Daw hyn hefyd o fewn fy maes cyfrifoldeb i.

Cyfrifoldeb awdurdodau addysg lleol yw gwelliannau i safleoedd ysgol. Mae dau brif lwybr cyllido: cyllid cyfalaf cyffredinol, nad yw wedi'i bridiannu, a'r grant gwella adeiladau ysgolion, na ellir ond ei ddefnyddio yn erbyn meini prawf penodol. Nid yw Llywodraeth y Cynulliad yn pennu faint y dylid ei wario ar unrhyw elfen unigol o'r ddarpariaeth. Cyfrifoldeb y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes yw'r maes hwn.

Mae'r dasg o greu cynllun strategol i ddiwallu anghenion yr holl blant a phobl ifanc yn eu hardal yn perthyn i'r partneriaethau plant a phobl ifanc. Wrth wneud hynny, gallant ystyried y ffordd orau o ddal y ddysgl yn wastad rhwng gwahanol fathau o ddarpariaeth chwarae.

### Gwelyau Gofal Seibiant y Sector Cyhoeddus ar Ynys Môn

**Peter Rogers:** Faint o welyau gofal seibiant y sector cyhoeddus sydd ar Ynys Môn, ac ymhle y maent? (WAQ23020)

**Jane Hutt:** Mater i lywodraeth leol yw darparu gofal seibiant, fel sy'n wir am wasanaethau gofal cymunedol eraill, a gellir ei ddarparu yng nghartref y person ei hun neu mewn sefydliad preswyl sy'n cael ei gynnal gan yr awdurdod lleol neu'r sector annibynnol.

Ceir chwe chartref gofal i oedolion o eiddo'r awdurdod lleol ar Ynys Môn gyda chyfanswm o 168 o leoedd. Dyma enwau'r cartrefi, eu lleoliad a nifer y gwelyau:

- Brwynog, Heol Madyn, Amlwch (31 lle)
- Garreglwyd, Ffordd Garreglwyd, Caergybi (29 lle)
- Haulfre, Llangoed, ger Biwmares (24 lle)
- Plas Crigyll, Ffordd Salem, Bryngwran (27 lle)
- Plas Mona, Plas Môn, Ffordd Penmynydd, Llanfairpwll (29 lle)
- Plas Penlan, Bron Y Felin, Llangefni (28 lle)

### Darparu Gofal Seibiant

**Peter Rogers:** Beth yw'r gwahaniaeth yn y gost i'r trethdalwr rhwng darparu gofal seibiant mewn cartref gofal sy'n cael ei redeg gan y cyngor a chartref gofal preifat, ar Ynys Môn? (WAQ23022)

**Jane Hutt:** Bydd y costau yn amrywio am amryw o resymau gan gynnwys y gofal a'r cyfleusterau a ddarperir, natur y trefniant comisiynu ac amgylchiadau lleol. Nid yw'r Cynulliad Cenedlaethol yn casglu'r wybodaeth a geisir oddi wrth yr awdurdodau lleol. Mae'r cyfrifoldeb statudol am gynllunio, cyflenwi a chomisiynu gwasanaethau gofal yn gorffwys gyda llywodraeth leol.

### Catrefi Gofal Sector Preifat neu Sector Cyhoeddus ar Ynys Môn

**Peter Rogers:** Pa sector sy'n darparu'r gwerth gorau am arian (yn nhermau'r gost i'r trethdalwr) o safbwynt y sector cartrefi gofal ar Ynys Môn, y sector preifat neu'r sector cyhoeddus? (WAQ23023)

**Jane Hutt:** Yn ei hanfod, mae barnu ynglŷn â gwerth am arian yn golygu ystyried y cydbwysedd rhwng natur ac ansawdd y gwasanaeth a ddarperir a'r hyn a delir amdano. Bydd y costau yn dibynnu ar amryw o ffactorau gan gynnwys anghenion dibyniaeth y preswylwyr, lleoliad y cartref a natur y trefniant comisiynu. Nid yw'r wybodaeth gennyf i allu llunio barn wybodus a byddwn yn rhybuddio rhag cymariaethau gor-syml ar sail lefelau ffïoedd yn unig. Rhaid i gomisiynu da ymgorffori egwyddorion gwerth gorau mewn ffordd agored a strwythuredig ac mae'n darparu'r fframwaith i asesu'r gwasanaethau a ddarperir, sydd hefyd yn fodd i lunio cymariaethau er mwyn mesur ansawdd a chost.

### Ffioedd ar gyfer Cartrefi Gofal y Cynghorau Sir a Chartrefi Gofal Preifat

**Peter Rogers:** Beth yw canran y cynnydd newydd yn y ffioedd ar gyfer cartrefi gofal y cynghorau sir a'r cartrefi gofal preifat ar Ynys Môn ac i beth y mae hyn yn cyfateb o ran arian? (WAQ23024)

**Jane Hutt:** Nid yw'r Cynulliad Cenedlaethol yn casglu'r wybodaeth hon oddi wrth yr awdurdodau lleol.

### Safonau Amgylcheddol

**Glyn Davies:** Pa newidiadau a wnaed i'r safonau amgylcheddol y mae'n rhaid i gartrefi gofal eu bodloni yn ystod 2003? (WAQ23032)

**Jane Hutt:** Gwneuthum gyhoeddiad ar 3 Medi 2002. Yn gyffredinol, nid wyf yn bwriadu gwneud unrhyw newidiadau i'r safonau ar gyfer cartrefi gofal ar hyn o bryd. Yr wyf am weld y safonau yn cael eu bodloni mewn modd synhwyrol a hyblyg. Er mwyn adlewyrchu ymdriniaeth felly, cyhoeddodd prif weithredwr Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru ganllawiau gweithredol newydd i'w arolygwyr yn ddiweddar ar sut y mae'n disgwyl i'r rheoliadau a'r safonau gael eu rhoi ar waith. Caiff effaith y canllawiau newydd hyn ei monitro a'i hadolygu. Yn ogystal, yr wyf yn ymgynghori ar hyn o bryd ynglŷn â newidiadau posibl i'r gofynion amgylcheddol a gweinyddol i gartrefi bach ar gyfer pobl hŷn (cartrefi sydd â thri gwely neu lai) er mwyn adlewyrchu natur ddomestig y sefydliadau hyn. Yr wyf hefyd yn bwriadu ymgynghori'n ddiweddarach ynglŷn â'r safonau i gartrefi gofal llai ar gyfer pobl o dan 65.

### Chartrefi Nyrsio a Chartrefi Gofal yng Nghymru

**Peter Rogers:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu polisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru mewn perthynas â chartrefi nyrsio a chartrefi gofal yng Nghymru? (WAQ23035)

**Jane Hutt:** Mae darpariaeth sefydlog a dichonadwy o ran cartrefi gofal, boed hynny yn y sectorau cyhoeddus, preifat neu wirfoddol, yn rhan hanfodol o'r holl gontinwwm gofal. Fy amcan i yw gweithio mewn partneriaeth â defnyddwyr, gofalwyr, comisiynwyr a darparwyr i wella ystod ac ansawdd y gwasanaethau gofal a sicrhau sector cartrefi gofal sy'n ddichonadwy ac egnïol. Ymysg y camau gweithredu sydd wedi'u cymryd neu sydd yn yr arfaeth mae:

- sefydlu grŵp strategaeth gofal Cymru i roi sylw i'r materion strategol allweddol sy'n effeithio ar holl rychwant y gwasanaethau gofal cymdeithasol a rhoi cyngor ynglŷn â hwy er mwyn helpu i roi mwy o sefydlogrwydd a hyder i ddarparwyr yn y sector gofal;
- canllawiau statudol i awdurdodau lleol ar eu harferion comisiynu a chontractio gwasanaethau gofal er mwyn hyrwyddo'r cysyniad o bartneriaeth, cysondeb o ran arferion da a chydnabod yr effaith a gaiff arferion comisiynu ar ddarparwyr;
- cyllido menter gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ddarparu fframwaith i'r awdurdodau lleol i'w galluogi i gymryd costau darparwyr i ystyriaeth mewn ffordd wybodus a thryloyw wrth iddynt negodi eu ffïoedd lleol;
- darparu cyllid ychwanegol i awdurdodau lleol drwy setliad refeniw a grantiau llywodraeth leol i gydnabod y pwysau ar wasanaethau gofal, a helpu i fynd i'r afael ag oedi wrth drosglwyddo gofal;

- cyflwyno safonau cenedlaethol newydd a chofrestru ac arolygu annibynnol drwy Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru; canllawiau gweithredol newydd ar orfodi'r safonau ffisegol ac adolygiad o'r safonau ffisegol a gweinyddol sy'n effeithio ar gartrefi gofal llai; a
- rhoi sylw i faterion gweithlu drwy grŵp gorchwyl o dan gadeiryddiaeth y Prif Arolygydd Gwasanaethau Cymdeithasol gyda rhywfaint o gyllid ychwanegol i gynorthwyo gweithredu sy'n deillio o waith y grŵp.

### Cyhoeddi Gohebiaeth

**Nick Bourne:** A all y Gweinidog gyhoeddi unrhyw ohebiaeth y mae wedi'i chael ynghylch y gwasanaeth meddygon teulu sydd ar gael yn Nhywyn, Gwynedd, ar benwythnosau? (WAQ23058)

**Jane Hutt:** Nid yw'n bolisi arferol cyhoeddi gohebiaeth sy'n dod i law.

### Rhestrau Aros a Gwaith Preifat

**Lynne Neagle:** Pa asesiad sy'n cael ei wneud o'r berthynas rhwng hyd y rhestrau aros ar gyfer triniaeth orthopedig yng Ngwent a chyfran y gwaith preifat a wneir gan ymgynghorwyr unigol? (WAQ23059)

**Jane Hutt:** Nid yw Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gwneud unrhyw asesiad ac nid yw'n bwriadu gwneud hynny.

Mae trefniadau contract ymgynghorwyr yn caniatáu iddynt ymgymryd â gwaith preifat ar lefel y cytunwyd arni, un ai mewn ysbytai preifat neu gyfleusterau'r GIG. Nid yw hyn yn effeithio ar driniaeth cleifion y GIG. O dan y contractau hyn, mae ymgynghorwyr yn gorfod rhwymo cryn dipyn o'u hamser i waith y GIG. Cânt eu monitro fel ymgynghorwyr amser llawn a dim ond 10 y cant ychwanegol ar ben eu cyflog GIG y cânt ei ennill. Mae'r mwyafrif helaeth o ymgynghorwyr yn gweithio'n galed ar ran y GIG ac yn cyflawni eu hymrwymiadau cytundebol a mwy.

### Gwaith Preifat Ymgynghorwyr Orthopedig y GIG

**Lynne Neagle:** Beth yw cyfran y gwaith preifat a wneir gan ymgynghorwyr orthopedig unigol y GIG yn ardal Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Gwent? (WAQ23060)

**Jane Hutt:** Y mae ysbytai'r GIG wedi trin lleiafrif o gleifion ar sail breifat ers sefydlu'r GIG yn 1948. Dim ond lle nad oes unrhyw anfantais arwyddocaol i'w rhwymedigaethau o dan unrhyw gontract GIG y caiff ymddiriedolaethau GIG ymgymryd â gwasanaeth preifat, a hynny ar yr amod fod y costau llawn o leiaf yn cael eu hawlio, gan gynnwys adenillion priodol ar gyfalaf a ddefnyddiwyd.

Mae trefniadau contract ymgynghorwyr yn caniatáu iddynt ymgymryd â gwaith preifat ar lefel y cytunwyd arni, un ai mewn ysbytai preifat neu gyfleusterau'r GIG. Nid yw hyn yn effeithio ar driniaeth cleifion y GIG. O dan y contractau hyn, mae ymgynghorwyr yn gorfod rhwymo cryn dipyn o'u hamser i waith y GIG. Cânt eu monitro fel ymgynghorwyr amser llawn gan brif weithredwyr yr ymddiriedolaethau a dim ond 10 y cant ychwanegol ar ben eu cyflog GIG y cânt ei ennill. Mae'r mwyafrif helaeth o ymgynghorwyr yn gweithio'n galed ar ran y GIG ac yn cyflawni eu hymrwymiadau cytundebol a mwy.

Nid oes gwybodaeth yn cael ei chadw'n ganolog am ymgynghorwyr unigol.

### Gwasanaeth Iechyd yng Ngorllewin De Cymru

**Peter Black:** Beth mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i gyflawni yn y gwasanaeth iechyd yng Ngorllewin De Cymru ers sefydlu'r Llywodraeth bartneriaeth? (WAQ23061)

**Jane Hutt:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cymryd camau breision ymlaen gyda'i pholisïau gofal iechyd, ac mae hynny o fudd i bob rhan o Gymru. Yn ne-orllewin Cymru yn arbennig mae nifer o

gynlluniau arloesol wedi cael eu cyllido i wella mynediad at wasanaethau megis ffisiotherapi, cymalffurfiad a chyflyrau cyhyrysgerbydol, gan sicrhau bod pobl yn cael eu trin yn gyflymach ac yn cael eu gweld gan y person mwyaf priodol i drin eu cyflwr.

Mae'r tîm arloesi mewn gofal wedi bod yn gweithio gyda chyrff y GIG i gynyddu mynediad at wasanaethau gofal iechyd i bobl ar draws Cymru. Yn ardal Gorllewin De Cymru, megis ym mhob ardal arall o Gymru, mae prosiectau i sicrhau gwelliannau ym maes cleifion allanol a rheoli'r galw yn arwain at amseroedd aros byrrach am apwyntiadau fel cleifion allanol. Mae gan gleifion fwy o ddewis hefyd erbyn hyn o ran mynediad at ofal iechyd, gydag apwyntiadau newydd i gleifion allanol yn cael eu cynnig drwy wahodd cleifion i alw a threfnu apwyntiad ar adeg sy'n gyfleus iddynt hwy.

Ers ei sefydlu yn haf 2000, mae'r rhaglen arloesi mewn gofal wedi dyrannu dros £2.2 miliwn i ysbytai a grwpiau iechyd lleol yn rhanbarth y de-orllewin. Defnyddiwyd yr arian i wella mynediad cleifion at ofal drwy sefydlu clinigau o dan arweiniad nyrsys, penodi staff a chynorthwyo cynlluniau sy'n rhoi prawf ar ffyrdd newydd o weithio.

### Strategaeth y Llywodraeth ar gyfer Cleifion Dementia

**Ann Jones:** Yng ngoleuni'r fframwaith strategol cenedlaethol ar gyfer pobl hŷn, pa strategaeth sydd gan y Llywodraeth ar gyfer cleifion dementia? (WAQ23063)

**Jane Hutt:** Cyhoeddwyd fframwaith gwasanaeth cenedlaethol i bobl hŷn yn Lloegr ond ni wnaed yng Nghymru eto. Yr oedd fy swyddogion mewn cysylltiad agos â'r Adran Iechyd tra'r oedd yn cael ei ddatblygu.

### Canllawiau ar Dementia

**Ann Jones:** Pa gynlluniau sydd gan y Llywodraeth i sicrhau bod canllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol (NICE) ar dementia yn cael eu gweithredu'n briodol? (WAQ23064)

**Jane Hutt:** Nid yw NICE wedi datblygu canllaw ar dementia. Fodd bynnag, un o'r canllawiau clinigol sy'n cael ei ystyried ar gyfer rhaglen waith wythfed don NICE yw: 'Paratoi canllaw clinigol i'r GIG yng Nghymru a Lloegr ar asesu a rheoli dementia'. Disgwyliaf i'r wythfed don gael ei chyhoeddi yn fuan iawn.

A chymryd bod y don yn cynnwys y canllaw clinigol ar ddementia, fe gymer beth amser cyn i ganllaw terfynol NICE gael ei gynhyrchu gan ei bod, ar gyfartaledd, yn cymryd tua dwy flynedd i NICE gynhyrchu canllaw clinigol. Golyga hyn fy mod yn disgwyl i ganllaw ar dementia gael ei gyhoeddi yn 2005.

Cyn belled ag y mae gweithredu canllawiau clinigol NICE yn bod, yr wyf yn disgwyl i glinigwyr roi sylw i holl ganllawiau NICE gan y seilir hwy ar y dystiolaeth orau sydd ar gael a'u bod wedi cael eu llunio ar ôl ymgynghori eang, gan wrando ar farn cleifion a gofalwyr yn ogystal ag arbenigwyr yn y maes. Gall clinigwyr wyro oddi wrth y cyngor os yw amgylchiadau claf unigol yn cyfiawnhau hynny yn eu tyb hwy, ond cânt eu dal yn atebol drwy'r trefniadau llywodraethu clinigol am eu penderfyniadau clinigol.

Caiff grŵp llywio amlddisgyblaethol ei sefydlu yn fuan, a fydd yn cynghori Llywodraeth Cynulliad Cymru ar sut y dylid tywys y fframwaith safonau cenedlaethol hwn yn ei flaen yng Nghymru. Bydd y fframwaith yn cynnwys adran benodol ar dementia.

### Hawliadau Esgeuluster Clinigol

**David Lloyd:** Pa ganran o'r hawliadau esgeuluster clinigol yng Nghymru sy'n arwain at gostau cyfreithiol sy'n uwch na'r taliadau iawndal? (WAQ23141)

**Jane Hutt:** O'r 146 o hawliadau a ad-dalwyd gan Gronfa Risg Cymru yn 2001-02, yr oedd 21 (neu 14 y cant) lle'r oedd y costau yn uwch na'r setliad. Yn nhermau gwerth yr oedd y rhain yn cynrychioli 0.77 y cant o'r holl ad-daliadau.

**Bydwragedd yn y GIG**

**David Davies:** A wnaiff y Gweinidog roi rhestr o nifer y bydwragedd a oedd yn gweithio yn y GIG yng Nghymru, fesul blwyddyn ers 1999? (WAQ23151)

**Jane Hutt:** Rhoddir y wybodaeth yn y tabl isod.

**Nifer y bydwragedd mewn swyddi ar 30 Medi**

| | Nifer | Cyfwerth ag amser cyflawn |
|---|---|---|
| 1999 | 1,438 | 1,075 |
| 2000 | 1,485 | 1,041 |
| 2001 | 1,604 | 1,130 |

**Rheolwyr a Gweinyddwyr yn y GIG**

**David Davies:** Sawl rheolwr a gweinyddwr a oedd yn cael eu cyflogi yn y GIG yng Nghymru ym mhob un o'r pedair blynedd diwethaf? (WAQ23152)

**Jane Hutt:** Rhoddir y wybodaeth yn y tabl isod.

**Rheolwyr a gweinyddwyr a oedd yn cael eu cyflogi gan y GIG ar 30 Medi**

| | Nifer | | Cyfwerth ag amser cyflawn | |
|---|---|---|---|---|
| | Rheolwyr (a) | Clercaidd a gweinyddol | Rheolwyr (a) | Clercaidd a gweinyddol |
| 1998 | 1,347 | 10,630 | 1,296 | 8,649 |
| 1999 | 1,231 | 10,807 | 1,176 | 8,853 |
| 2000 | 1,259 | 11,401 | 1,198 | 9,213 |
| 2001 | 1,403 | 12,045 | 1,339 | 9,799 |

(a) Yn cael eu cyflogi yn y grŵp staff gweinyddol ac ystadau.

**Nifer y Lleoedd yng Nghartrefi Gofal yr Awdurdodau Lleol yng Nghymru**

**David Davies:** A wnaiff y Gweinidog restru nifer y lleoedd yng nghartrefi gofal yr awdurdodau lleol yng Nghymru fesul blwyddyn ers 1999? (WAQ23154)

**Jane Hutt:** Yr oedd cyfanswm y lleoedd i oedolion a phlant mewn cartrefi gofal o eiddo awdurdodau lleol ar 31 Mawrth bob blwyddyn er 1999 fel a ganlyn:

| Lleoedd mewn cartrefi gofal o eiddo awdurdodau lleol yng Nghymru | Ar 31 Mawrth(1) | | |
|---|---|---|---|
| | 1999 | 2000 | 2001 |
| Cartrefi i oedolion | 5,632 | 5,511 | 5,120 |
| Cartrefi i blant | 226 | 223 | 203 |

(1) Yn ôl adroddiadau'r awdurdodau lleol i'r Cynulliad Cenedlaethol.

**Nifer y Derbyniadau i Ysbytai yng Nghymru**

**David Davies:** A wnaiff y Gweinidog restru nifer y derbyniadau i ysbytai yng Nghymru, fesul blwyddyn ers 1997? (WAQ23155)

**Jane Hutt:** Rhoddir y wybodaeth yn y tabl isod.

**Preswylwyr o Gymru a dderbyniwyd i'r ysbyty (a)**

| | |
|---|---|
| 1997-98 | 695,532 |
| 1998-99 | 697,373 |
| 1999-2000 | 680,909 |
| 2000-01 | 698,661 |
| 2001-02 | 694,999 |

(a) Cleifion preswyl ac achosion dydd.

Ffynhonnell: cronfa ddata Cymru am episodau cleifion.

**Nifer y Nyrsys yn y GIG**

**David Davies:** A wnaiff y Gweinidog restru nifer y nyrsys a oedd yn gweithio yn y GIG yng Nghymru, fesul blwyddyn ers 1999? (WAQ23156)

**Jane Hutt:** Rhoddir y wybodaeth yn y tabl isod.

**Staff yn y grŵp staff nyrsio, bydwreigiaeth ac ymwelwyr iechyd mewn swyddi ar 30 Medi**

| | **Y Staff i Gyd** | | | **Staff cymwysedig(a)** | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Nifer** | **Cyfwerth ag amser cyflawn** | | **Nifer** | **Cyfwerth ag amser cyflawn** |
| 1999 | 32,708 | 23,973 | | 21,972 | 16,927 |
| 2000 | 35,169 | 24,314 | | 24,127 | 17,672 |
| 2001 | 35,521 | 24,751 | | 24,439 | 18,088 |

(a) y rhai sy'n nyrsys cofrestredig neu restredig

**Cartrefi Gofal Preswyl Cyngor Sir Ynys Môn**

**Peter Rogers:** Faint y mae darparu gofal preswyl yng nghartrefi gofal preswyl Cyngor Sir Ynys Môn yn ei gostio i drethdalwyr Ynys Môn bob wythnos? (WAQ23180)

**Peter Rogers:** Faint mae darparu gofal preswyl mewn cartrefi gofal preswyl preifat ar yr ynys yn ei gostio i drethdalwyr Ynys Môn? (WAQ23191)

**Peter Rogers:** Faint mae darparu gofal preswyl mewn cartref nyrsio preifat ar Ynys Môn yn ei gostio i drethdalwyr Ynys Môn? (WAQ23199)

**Jane Hutt:** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddais ichi ar 4 Mawrth 2003, i WAQ23022.

**Cartrefi Gofal Cyngor Sir Ynys Môn**

**Peter Rogers:** Faint yw'r cynnydd yn y ffïoedd ar gyfer cartrefi gofal Cyngor Sir Ynys Môn ac ar gyfer cartrefi nyrsio preifat a chartrefi preswyl preifat ar yr ynys? (WAQ23187)

**Peter Rogers:** Faint fydd y cynnydd yn y ffïoedd yng nghartrefi preswyl y cyngor ar Ynys Môn yn ystod y flwyddyn sydd i ddod? (WAQ23200)

**Peter Rogers:** Faint fydd y cynnydd yn y ffïoedd mewn cartrefi preswyl preifat ar Ynys Môn yn ystod y flwyddyn sydd i ddod? (WAQ23201)

**Jane Hutt:** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddais ichi ar 4 Mawrth 2003 (WAQ23024).

**Ffïoedd Cartrefi Gofal yn y Sector Cyhoeddus a'r Sector Preifat**

**Peter Rogers:** A oes unrhyw fwriad i gyflwyno'r un ffïoedd yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat, a'r rheini'n ffïoedd sydd wedi'u safoni, ar sail ansawdd y gwasanaethau a ddarperir, lle mai'r unig beth sy'n cyfrif am y symiau gwahanol yw'r mathau gwahanol o ofal a roddir, megis gofal nyrsio, gofal i'r henoed bregus eu meddwl, a gofal preswyl? (WAQ23188)

**Jane Hutt:** Nid oes gan y Cynulliad y pwerau i ddweud wrth awdurdodau lleol faint y dylent ei dalu i gartrefi gofal nac i bennu lefelau ffïoedd cenedlaethol. Mater i'r comisiynwyr yw negodi lefelau ffïoedd gyda darparwyr gwasanaeth. Rhaid i gomisiynu da ymgorffori egwyddorion gwerth gorau mewn ffordd agored a strwythuredig ac mae angen i gomisiynwyr fod yn deg wrth ddelio â darparwyr

**Gwariant Cartrefi Gofal ar Ynys Môn**

**Peter Rogers:** A all y Gweinidog ddweud wrthyf a gaiff y gwariant ychwanegol y mae'n rhaid i gartrefi gofal preswyl a chartrefi nyrsio y sector cyhoeddus ar Ynys Môn ei ysgwyddo (drwy adnewyddu cartrefi gofal, costau cyfreithiol ac yswiriant) ei adlewyrchu yn y ffïoedd a'r symiau a ddyrennir iddynt o gyllidebau'r cyngor sir? (WAQ23196)

**Jane Hutt:** Nid yw'r Cynulliad Cenedlaethol yn casglu'r wybodaeth hon oddi wrth yr awdurdodau lleol.

**Cynnydd yn y Ffïoedd ar gyfer Cartrefi Nyrsio Preifat**

**Peter Rogers:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch a yw'n dderbyniol bod y cynnydd yn y ffïoedd ar gyfer cartrefi nyrsio preifat yn llai nag ar gyfer cartrefi preswyl, o ystyried bod angen lefelau staffio uwch? (WAQ23202)

**Jane Hutt:** Fel y dywedais yn yr ateb a roddais ichi ar 4 Mawrth (WAQ23023), bydd y ffïoedd a negodir gan awdurdodau lleol â darparwyr gwasanaeth yn dibynnu ar amyw o ffactorau, gan gynnwys anghenion dibyniaeth y preswylwyr, lleoliad y cartref, a natur y trefniant comisiynu. Nid yw'r wybodaeth gennyf i allu cynnig sylwadau ar sail ffeithiau am newidiadau penodol i strwythurau ffïoedd. Fel yr wyf hefyd wedi datgan o'r blaen, rhaid i gomisiynu da ymgorffori egwyddorion gwerth gorau mewn ffordd agored a strwythuredig a darparu'r fframwaith a ddefnyddir i asesu'r gwasanaethau a ddarperir, sydd hefyd yn fodd i lunio cymarthiaethau er mwyn mesur ansawdd a chost.

**Cwestiynau Ysgrifenedig Heb eu Hateb**

**Peter Rogers:** A all y Gweinidog gadarnhau pryd y bydd mewn sefyllfa i ateb WAQ22863, WAQ22870, WAQ22873, WAQ22878, WAQ22879, WAQ22880, WAQ22881, WAQ22882 a WAQ22883, a oedd i fod i gael eu hateb ar 3 Mawrth 2003? (WAQ23345)

**Jane Hutt:** Mae atebion i'r cwestiynau ysgrifenedig uchod wedi cael eu darparu i chi fel a ganlyn:

| Cyfeirnod WAQ | Dyddiad anfon |
|---|---|
| 22863 | 4 Mawrth |
| 22870 | 27 Chwefror |
| 22873 | 3 Mawrth |
| 22878 | 27 Chwefror |
| 22879 | 27 Chwefror |
| 22880 | 27 Chwefror |

| | |
|---|---|
| 22881 | 27 Chwefror |
| 22882 | 27 Chwefror |
| 22883 | 27 Chwefror |

## Cwestiynau i Bwyllgor y Tŷ

### Diogelwch yn Nhŷ Crycywel

**Glyn Davies:** Pa gynlluniau sydd ar y gweill i wella'r trefniadau diogelwch ger y brif fynedfa i Dŷ Crycywel? (WAQ22908)

**Y Dirprwy Lywydd (John Marek):** Yn ei gyfarfod ar 30 Ionawr, cymeradwyodd Pwyllgor y Tŷ gynigion i wella'r trefniadau diogelwch ger y brif fynedfa i'r adeilad. Y bwriad yw creu ardal mynediad cychwynnol ddiogel. Bydd yr addasiadau yn cynnwys gwahanu ymwelwyr sydd wedi cael eu sganio oddi wrth ymwelwyr sydd heb gael eu sganio a gosod rhwystrau mynediad y mae'n rhaid cael cerdyn i'w hagor. Bydd hyn yn sicrhau bod pob ymwelydd yn cael ei sganio wrth ddod i mewn, cyn cael mynd i rannau cyhoeddus yr adeilad.

### Campfa yn Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**Glyn Davies:** Pa gynlluniau sydd ar y gweill i agor campfa yn adeilad y Cynulliad Cenedlaethol ym mae Caerdydd? (WAQ22909)

**Y Dirprwy Lywydd:** Nid oes cynlluniau i agor campfa yn adeilad y Cynulliad Cenedlaethol ym mae Caerdydd.